# Dogfen ir Cyhoedd

Dr Gwynne Jones
Prif Weithredwr – Chief Executive
CYNGOR SIR YNYS MÔN
ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL
Swyddfeydd y Cyngor - Council Offices
LLANGEFNI
Ynys Môn - Anglesey
LL77 7TW

Ffôn / tel (01248) 752500
Ffacs / fax (01248) 750839

| RHYBUDD O GYFARFOD | | NOTICE OF MEETING |
|---|---|---|
| PWYLLGOR SGRIWTINI CORFFORAETHOL | | CORPORATE SCRUTINY COMMITTEE |
| DYDD MERCHER, 10 MEHEFIN 2015 am 2.00 o'r gloch y prynhawn | | WEDNESDAY, 10 JUNE, 2015 at 2:00 p.m. |
| YSTAFELL BWYLLGOR 1, SWYDDFEYDD Y CYNGOR, LLANGEFNI | | COMMITTEE ROOM 1, COUNCIL OFFICES, LLANGEFNI |
| Swyddog Pwyllgor | Ann Holmes<br>01248 752518 | Committee Officer |

**AELODAU / MEMBERS**
Cynghorwyr / Councillors:-

**ANNIBYNNOL GWREIDDIOL/ORIGINAL INDEPENDENT**

Jim Evans, Victor Hughes, G. O. Jones (Is-Gadeirydd/Vice-Chair), Raymond Jones

**PLAID CYMRU/THE PARTY OF WALES**

R. Meirion Jones (Cadeirydd/Chair), Lewis Davies, Ann Griffith a Llinos Medi Huws

**GRWP CHWYLDROAD/REVOLUTIONIST GROUP**

Peter Rogers

**HEB YMUNO/UNAFFILIATED**

R Ll Jones

**AELODAU CYFETHOLEDIG GYDA PHLEIDLAIS PAN YN TRAFOD MATERION YN YMWNEUD AG ADDYSG / CO-OPTED MEMBERS WITH A RIGHT TO VOTE WHEN DEALING WITH EDUCATIONAL MATTERS**

Mr Keith Roberts (Yr Eglwys Babyddol Rufeinig / The Roman Catholic Church) a Parch./Rev. Robert Townsend (Yr Eglwys yng Nghymru / The Church in Wales)

# R H A G L E N

1 **DATGANIAD O DDIDDORDEB**

Derbyn unrhyw ddatganiad o ddiddordeb gan unrhyw Aelod neu Swyddog parthed unrhyw eitem o fusnes.

2 **COFNODION CYFARFOD 16 EBRILL, 2015** (Tudalennau 1 - 8)

Cyflwyno cofnodion cyfarfodydd blaenorol y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol a gynhaliwyd ar y dyddiadau a nodir isod -

- 16 Ebrill, 2015
- 14 Mai, 2015 (ethol Cadeirydd/Is-Gadeirydd)

3 **DIWEDDARIAD Y CADEIRYDD AC AELODAU**

Y Cadeirydd a'r Aelodau i adrodd ar ddatblygiadau/digwyddiadau ers y cyfarfod blaenorol.

4 **MONITRO PERFFORMIAD - Y CERDYN SGORIO CORFFORAETHOL CH4 2014/15** (Tudalennau 9 - 22)

Cyflwyno'r cerdyn Sgorio Corfforaethol am Chwarter 4 2014/15.
*(Adroddiad i Bwyllgor Gwaith 26 Mai, 2015)*

5 **MONITRO'R GYLLIDEB - CANLYNIAD Y GYLLIDEB GYFALAF 2014/15** (Tudalennau 23 - 36)

Cyflwyno adroddiad ar ganlyniad y Gyllideb Gyfalaf am 2014/15.

6 **MONITRO'R GYLLIDEB - CANLYNIAD DROS DRO Y GYLLIDEB REFENIW 2014/15** (Tudalennau 37 - 46)

Cyflwyno adroddiad ar ganlyniad dros dro y Gyllideb Refeniw am 2014/15.

7 **MYNYCHU CYNHADLEDD** (Tudalennau 47 - 50)

Cyflwyno adroddiad gan y Cadeirydd a'r Swyddog Sgriwtini o'r Gynhadledd Llwyddo drwy Gyd-Weithio a gynhaliwyd yn Llandrindod ar 27 Mawrth, 2015.

8 **BLAEN RHAGLEN WAITH** (Tudalennau 51 - 54)

Cyflwyno drafft cychwynnol o Flaen Rhaglen Waith y Pwyllgor am 2015/16.

# PWYLLGOR SGRIWTINI CORFFORAETHOL

## Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 16 Ebrill, 2015

| | |
|---|---|
| **PRESENNOL:** | Y Cynghorydd R. Meirion Jones(Cadeirydd)<br>Y Cynghorydd G.O. Jones (Is-Gadeirydd)<br><br>Y Cynghorwyr Jim Evans, Victor Hughes, Llinos Medi Huws, Raymond Jones, R. Llewelyn Jones |
| **WRTH LAW:** | Prif Weithredwr<br>Rheolydd Rhaglen a Chynllunio Busnes (GM)<br>Swyddog Sgriwtini (GR)<br>Swyddog Pwyllgor (ATH) |
| **YMDDIHEURIADAU:** | Y Cynghorwyr Lewis Davies, Ann Griffith |
| **HEFYD YN BRESENNOL** | Y Cynghorydd Alwyn Rowlands (Aelod Portffolio ar gyfer Trawsnewid Perfformiad, y Cynllun Corfforaethol ac Adnoddau Dynol) |

---

Estynnodd y Cadeirydd groeso i bawb i'r cyfarfod hwn o'r Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol. Dymunodd yn dda ar ran y Pwyllgor i Mr. Rees Roberts a fyddai'n ymddeol o'i swydd fel Cyfieithydd ar ddiwedd yr wythnos, a hefyd i Bev Symonds, Rheolydd Sgriwtini a oedd yn absennol o'i gwaith ar hyn o bryd oherwydd salwch.

**1 DATGANIADAU O DDIDDORDEB**

Ni chafwyd yr un datganiad o ddiddordeb.

**2 DIWEDDARIAD GAN Y CADEIRYDD A'R AELODAU**

Adroddodd y Cadeirydd am y materion a ganlyn:

- Ei fod ef a'r Swyddog Sgriwtini wedi bod i gynhadledd undydd ar gyfer swyddogion proffesiynol yn y maes gwasanaethau cyhoeddus yn Llandrindod ar 27 Mawrth 2015 o'r enw *Llwyddo drwy Gydweithio....Rhannu Atebolrwydd i'r Cyhoedd yng Nghymru.* Roedd y gynhadledd yn rhoi sylw i ddysgu am sut i fynd ati i sgriwtineiddio gam wrth gam; dylanwadu ar y rhyngwyneb rhwng sgriwtini mewnol ac adolygiad allanol a rhoi gwybod am y meddylfryd diweddaraf ynghylch gwasanaethau cyhoeddus ac atebolrwydd yng Nghymru. Dywedodd y Cadeirydd y byddai ef a'r Swyddog Sgriwtini yn rhoi cyflwyniad byr i'r Pwyllgor yn ei gyfarfod nesaf ar brif bwyntiau'r gynhadledd a sut maent yn berthnasol i'r sefyllfa'n lleol.
- Adroddiadau Pwyllgorau Sgriwtini/Panelau Canlyniad Sgriwtini. Atgoffwyd y Pwyllgor gan y Cadeirydd fod tri adroddiad wedi eu cynhyrchu - un gan y Pwyllgor mewn perthynas â chynigion ar gyfer cyllideb 2015/16 a dau gan Banelau Canlyniad Sgriwtini mewn perthynas â Rheoli Absenoldeb Salwch ac Adolygu Arbedion Effeithlonrwydd 2014/15. Yn achos adroddiad Sgriwtineiddio'r Cyllideb 2015/16, dywedodd y Cadeirydd na chafodd yr adroddiad ei gyflwyno i'r Pwyllgor Gwaith ac fe gafodd yn hytrach grynodeb o argymhellion y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol. Dywedodd ei fod yn credu y dylid adolygu'r broses ar gyfer adrodd ar y gyllideb gyda hyn cyn cynnal ymarfer ymgynghori ar gyfer cyllideb y flwyddyn nesaf. Mewn perthynas ag adroddiadau'r Panel Canlyniad Sgriwtini, gohiriwyd cyflwyno'r ddau adroddiad i'r Pwyllgor Gwaith hyd nes y byddai cytundeb ynghylch eu cynnwys - yn y cyfarfod ym mis Mawrth penderfynodd y Pwyllgor y dylai'r panelau eu hunain benderfynu'r cynnwys ond gan gymryd i ystyriaeth hefyd fewnbwn y swyddogion. Mae'r adolygiad hwnnw bellach wedi ei gynnal ac mae'r adroddiadau wedi eu cynnwys fel rhan o'r materion a fydd yn cael sylw gan y Pwyllgor Gwaith yn ei gyfarfod ar 20 Ebrill. Dywedodd y Cadeirydd ei fod yn credu bod proses wedi ei chytuno bellach ar gyfer delio gydag adroddiadau canlyniad sgriwtini sy'n cael eu

DRAFT

harwain gan yr Aelodau, o fewn y fframwaith adrodd corfforaethol, lle bydd adroddiadau drafft yn cael eu hanfon ymlaen i'r swyddogion hynny sydd wedi cyfrannu'n broffesiynol i'r adolygiad sgriwtini er mwyn iddynt wirio fod cynnwys yr adroddiadau drafft yn ffeithiol gywir, ar gyfer eu cyflwyno wedyn i'r Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol i'w cymeradwyo fel y rhiant-Bwyllgor cyn iddynt gael eu cyflwyno i'r Pwyllgor Gwaith.

- Gofynnodd y Swyddog Sgriwtini i'r Pwyllgor ystyried enwebu aelod i wasanaethu yn lle'r Cynghorydd Ann Griffith ar y Bwrdd Prosiect Trawsnewid Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu oherwydd nad oedd hi'n teimlo ei bod yn medru cyflawni'r swyddogaeth honno oherwydd ymrwymiadau gwaith. **Penderfynwyd enwebu'r Cynghorydd R. Meirion Jones i wasanaethu ar y Bwrdd Prosiect Trawsnewid Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu.**

## 3 COFNODION

Cyflwynwyd cofnodion y cyfarfodydd blaenorol o'r Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol a gynhaliwyd ar y dyddiadau isod a chadarnhawyd eu bod yn gywir:

- 3 Chwefror, 2015 (arbennig - Cyllideb)
- 10 Chwefror, 2015
- 24 Mawrth, 2015 (arbennig)

Yn codi o gofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 24 Mawrth 2015:

Cadarnhaodd y Swyddog Sgriwtini ei fod wedi bod mewn cyswllt gyda'r Gwasanaeth Cyllid mewn perthynas ag argaeledd data perfformiad cyllid ar gyfer Chwarter 4 2014/15 mewn da bryd ar gyfer cyfarfod y Pwyllgor ar 11 Mai. Cadarnhaodd y Rheolydd Rhaglenni a Chynllunio Busnes y byddai'r Cerdyn Sgorio Corfforaethol ar gyfer Chwarter 4 yn cael ei gyflwyno i'r Uwch Dîm Arweinyddiaeth ar ddiwedd mis Ebrill cyn ei gyflwyno wedyn i'r Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol ar 11 Mai ac i'r Pwyllgor Gwaith ar ddiwedd Mai.

## 4 DOGFEN GYFLAWNI FLYNYDDOL 2015/16 (ADRODDIAD GWELLA)

Cyflwynwyd fersiwn ddrafft y Ddogfen Gyflawni Flynyddol ar gyfer 2015/16 i'r Pwyllgor wneud sylwadau arno. Mae'r Cynllun Cyflawni'n nodi gwaith y Cyngor sy'n cyd-fynd gyda blaenoriaethau'r Cynllun Corfforaethol i'w cyflawni yn ystod 2015/16 ac mae hefyd yn ymgorffori elfennau o'r gwelliannau (a flaenoriaethwyd) fel yr amlinellwyd nhw yn yr hunanasesiad corfforaethol a gynhaliwyd ym mis Ionawr 2015.

Estynnodd yr Aelod Portffolio ar gyfer Trawsnewid Perfformiad, y Cynllun Corfforaethol ac Adnoddau Dynol wahoddiad i'r Pwyllgor gyflwyno eu sylwadau a'u syniadau mewn perthynas â'r Ddogfen Gyflawni Flynyddol yn y cyfarfod hwn a hefyd yn y cyfnod hyd at ddiwedd mis Ebrill cyn y byddai'r ddogfen yn cael ei chyflwyno i'w chymeradwyo gan y Cyngor Sir ym Mai yn unol â thelerau'r Cyfansoddiad. Dywedodd yr Aelod Portffolio bod y ddogfen yn seiliedig ar flaenoriaethau'r Cynllun Corfforaethol a'r rheini a amlygwyd yn yr hunanasesiad corfforaethol a'i bod wedi ei chwblhau erbyn hyn i bob pwrpas yn amodol ar wneud rhai newidiadau i fanylion.

Dywedodd y Rheolydd Rhaglenni a Chynllunio Busnes mai'r cwestiwn allweddol yw a oes modd cyflawni amcanion y ddogfen yn ymarferol a beth yw'r sail dystiolaeth ar gyfer hynny. Mae'r dystiolaeth o'r gallu i gyflawni amcanion y ddogfen wedi ei thynnu o dair ffynhonnell:-

- Cynlluniau Darparu Gwasanaeth. Cwblhawyd y rhain yn dilyn setlo Cyllideb 2015/16 ac maent yn seiliedig felly ar y ddealltwriaeth bod yr adnoddau sydd eu hangen i'w gwireddu ar gael.
- Prosiectau unigol sy'n parhau ac sydd hefyd yn cydnabod yr angen i adnoddau priodol fod ar gael.
- Casgliadau'r Hunanasesiad Corfforaethol. Mae'r Penaethiaid Gwasanaeth a'r Uwch Dîm Arweinyddiaeth wedi nodi bod angen alinio blaenoriaethau i sicrhau bod modd cyflawni allbwn yr hunanasesiad a bydd yr agwedd hon yn cael sylw cyn i'r ddogfen gyflawni gael ei chyflwyno i'r Cyngor Sir.

Rhoddodd y Pwyllgor sylw i bob maes blaenoriaeth unigol a nodwyd yn y Ddogfen Gyflawni Flynyddol a gwnaed y sylwadau a ganlyn arnynt:-

- **Ein bod yn Trawsnewid Gofal Cymdeithasol i Oedolion Hŷn**

DRAFT

  - Mewn perthynas â’r crynodeb awgrymwyd y dylid ail-eirio’r paragraff cyntaf i adlewyrchu’r posibilrwydd na fydd y gwaith cynllunio a’r prosesau mewn perthynas â’r cynllun gofal ychwanegol yn Amlwch wedi aeddfedu i’r un graddau â’r cynllun yn Llangefni erbyn diwedd 2015/16 fel bod modd cychwyn y gwaith adeiladu arno. Cadarnhaodd y Rheolydd Rhaglenni a Chynllunio Busnes y byddai’r paragraff dan sylw’n cael ei ail-eirio yn y ffordd a awgrymwyd.

- **Adfywio ein Cymunedau a Datblygu’r Economi**

  - Mewn perthynas â’r crynodeb, awgrymwyd bod yr ymadrodd “gobaith” yn anarferol yng nghyd-destun dogfen sy’n nodi sut y bydd blaenoriaethau’n cael eu cyflawni ac y dylid ei ddileu. Fel rhan o waith i gwblhau’r ddogfen gyflawni’n derfynol, cadarnhaodd y Rheolydd Rhaglen a Chynllunio Busnes y bydd y ddogfen yn cael ei hadolygu ar gyfer cysondeb iaith a therminoleg.
  - Mynegodd y Pwyllgor rywfaint o bryder fod y ddogfen gyflawni’n cynnwys rhai ymrwymiadau sydd y tu hwnt i reolaeth yr Awdurdod ac y gallai felly fod yn gosod ei hun i fyny i fethu. Cyfeiriodd at ffactorau fel creu swyddi newydd a diogelu swyddi cyfredol fel enghraifft o hynny. Pwysleisiodd y Pwyllgor bod rhaid dangos bod y blaenoriaethau’n realistig ac yn gyraeddadwy ac felly rhaid iddynt fod o fewn maes dylanwad yr Awdurdod. Dywedodd y Rheolydd Rhaglen a Chynllunio Busnes y byddai’r agwedd honno’n cael ei hadolygu.
  - Mewn perthynas â’r nod o sicrhau cynnydd o 2% mewn lefelau twristiaeth yn 2015/16, awgrymodd y Pwyllgor bod angen i’r ddogfen nodi sut y byddir yn mynd ati i gyflawni hynny. Roedd y Pwyllgor hefyd yn cwestiynu a oedd dyhead o’r fath yn ymarferol o gofio ffactorau megis yr hinsawdd economaidd, faint o arian sydd gan bobl i’w wario a’r tywydd sydd oll yn ystyriaethau sydd tu allan i reolaeth yr Awdurdod. Cadarnhaodd y Rheolydd Rhaglen a Chynllunio Busnes fod y dyhead yn seiliedig ar y cynllun sydd wrth wraidd gwaith twristiaeth y Cyngor.
  - Fel rhan o’r gwaith i adfywio cymunedau a datblygu’r economi, dylai’r Ddogfen Gyflawni gyfeirio at adfywio gweithgynhyrchu mewn ardal drefol fel Caergybi. Dywedodd y Rheolydd Rhaglen a Chynllunio Busnes y byddai’n ymgynghori gyda’r Adran Datblygu Economaidd i sefydlu a oes unrhyw gynllun o’r fath yn yr arfaeth.
  - Mewn perthynas â datblygu cynlluniau sy’n cynyddu cyfleon cyflogaeth ar gyfer pobl ifanc fel rhan o’r rhaglen Ynys Ynni, nododd y Pwyllgor nad yw’r ddogfen yn gwneud unrhyw gyfeiriad at hyrwyddo cyfleon cyflogaeth i bobl ifanc yn y presennol; nododd y Pwyllgor y cyfnod amser rhwng hyfforddi pobl ifanc yr Ynys i roi’r sgiliau iddynt baratoi ar gyfer cyfleon cyflogaeth sy’n gysylltiedig â’r Rhaglen Ynys Ynni a gwireddu’r cyfleon hynny mewn gwirionedd yn sgil datblygiadau mawr megis Wylfa Newydd. Roedd yn bryderus yn y cyfamser y gallai gweithlu medrus ifanc yr Ynys fod wedi chwilio am gyfleon gwaith mewn mannau eraill. Esboniodd y Prif Weithredwr sut y mae Strategaeth Sgiliau esblygol yr Awdurdod a ddatblygwyd mewn cydweithrediad gyda phartneriaid yn y sector addysg wedi ei hanelu tuag at gwrdd â’r galw am sgiliau yn yr economi leol dros y degawd nesaf a sut y mae eisoes yn cael effaith.

- **Gwella Addysg, Sgiliau a Moderneiddio ein Hysgolion.**

  Nododd y Pwyllgor yr adran hon heb wneud sylwadau arni.

- **Cynyddu ein Hopsiynau Tai a Gostwng Tlodi**

  - Nododd y Pwyllgor nad yw’r ddogfen yn cynnig unrhyw ddatrysiad radical o ran sut y bydd stoc dai’r ynys yn cael ei huwchraddio’n gyffredinol ac eithrio yng Nghaergybi. Dywedodd y Rheolydd Rhaglen a Chynllunio Busnes fod y ddogfen yn darparu ar gyfer gwaith adnewyddu ac atgyweirio ar raddfa lai trwy wahanol gynlluniau a mentrau grant yn ystod 2015/16. Esboniodd y Swyddog ymhellach bod y targed o ddod â 60 o gartrefi a oedd wedi bod yn wag am gyfnod hir yn ôl i ddefnydd yn 2015/16 y rhan o Gytundeb Canlyniadau’r Awdurdod gyda Llywodraeth Cymru (roedd 90 eisoes wedi dod yn ôl i ddefnydd fel rhan o’r cytundeb) a bod cyflawni’r cytundeb yn sicrhau y rhyddheir arian yn unol â thelerau’r cytundeb hwnnw.

DRAFT

- **Trawsnewid ein Darpariaeth Hamdden a Llyfrgelloedd**

  - Rhoddwyd gwybod i'r Pwyllgor fod Panel Llyfrgelloedd wedi ei sefydlu a bod Strategaeth Hamdden wedi ei chymeradwyo'n ddiweddar gan y Pwyllgor Gwaith.
  - Awgrymodd y Pwyllgor y dylid asesu llyfrgelloedd y Cyngor yn unigol ac y dylid osgoi mabwysiadu un dull penodol o weithredu sy'n ceisio bod yn addas i gwrdd â phob sefyllfa a hynny ar y sail bod llyfrgelloedd yn darparu cymysgedd gwahanol ac amrywiol o weithgareddau a gwasanaethau i gwrdd ag anghenion y cymunedau y maent yn eu gwasanaethu.

- **Canolbwyntio ar y Cwsmer, y Dinesydd a'r Gymuned**

  Nododd y Pwyllgor yr adran hon heb wneud sylwadau arni.

- **Trawsnewid ein Technolegau Cyfathrebu a Gwybodaeth**

  - Awgrymodd y Pwyllgor y dylai'r adran hon gynnwys cyfeiriad at gyfathrebu ar y ffôn fel ffordd sylfaenol o gyfathrebu sy'n parhau i gael ei defnyddio. Dywedodd y Rheolydd Rhaglen a Chynllunio Busnes fod cyfathrebu ar y ffôn yn rhan annatod o'r Siarter Cwsmeriaid oherwydd bod y dull hwn o gyfathrebu yn cael ei gydnabod fel un sy'n boblogaidd gyda chwsmeriaid ac y gellid amlygu'r disgwyliadau'r Siarter Cwsmeriaid yn well yn yr adran hon o'r Ddogfen Gyflawni.

- **Blaenoriaethu Gwelliannau Eraill**

  Nodwyd y rhain gan y Pwyllgor.

- Awgrymodd y Pwyllgor y dylid ymgorffori monitro'r Dogfen Gyflawni yn y Flaenraglen ar gyfer y Pwyllgor fel bod modd iddo asesu a mesur cynnydd yn erbyn blaenoriaethau'r Awdurdod am y cyfnod 2015/16 ac i ddibenion cymharu gyda 2014/15. Esboniodd y Rheolydd Rhaglen a Chynllunio Busnes fod disgwyl i'r Awdurdod, yn ogystal â chyhoeddi Dogfen Gyflawni Blynyddol cyn gynted ag y bo modd ar ôl Ebrill bob blwyddyn, gyhoeddi adroddiad blynyddol ar berfformiad ym mis Hydref sy'n rhoi sylw i gyflawniadau'r flwyddyn flaenorol h.y. 2014/15 a bod rhaid i'r Cyngor llawn ei gymeradwyo dan y Fframwaith Polisi. Bydd drafft cychwynnol o'r adroddiad perfformiad ar gael fis Mehefin ond ni fydd hwnnw'n cynnwys meincnodi gydag Awdurdodau eraill yng Nghymru oherwydd nad yw'r DP yn cael eu gwirio gan Lywodraeth Cymru tan fis Awst, sef y rheswm am y dyddiad cyhoeddi statudol ym mis Hydref.

  Er yn nodi na fyddai data ar gael i gymharu perfformiad yr Awdurdod gydag awdurdodau eraill hyd nes y bydd yr adroddiad terfynol wedi ei gyhoeddi mis Hydref, nododd y Pwyllgor y byddai'n hoff cael y copi drafft o'r adroddiad perfformiad blynyddol ar gyfer ei gyfarfod ym mis Gorffennaf er mwyn cael syniad cyffredinol o'r hyn y mae'r Awdurdod wedi ei gyflawni o ran cwrdd â'i flaenoriaethau am y cyfnod 2014/15.

  **Penderfynwyd cyfeirio sylwadau'r Pwyllgor ar y Ddogfen Gyflawni Blynyddol am 2015/16 i'r Pwyllgor Gwaith gydag argymhelliad eu bod yn cael eu hymgorffori yn y fersiwn swyddogol i'w chymeradwyo gan y Cyngor llawn.**

  **CAM GWEITHREDU YN CODI: Swyddog Sgriwtini i drefnu i gynnwys drafft cychwynnol yr Adroddiad Perfformiad Blynyddol am 2014/15 yn rhaglen waith y Pwyllgor ar gyfer ei gyfarfod ym mis Gorffennaf 2015.**

## 5 RHAGLEN WAITH Y PWYLLGOR

Cyflwynwyd Rhaglen Waith y Pwyllgor hyd at ddiwedd mis Mai 2015 i sylw'r Pwyllgor.

Cyfeiriodd y Cadeirydd at y 3 Panel Canlyniad Sgriwtini sydd yn yr arfaeth mewn perthynas â mater Gwasanaethau Plant, Asedau Corfforaethol a Dileu Dyledion. Dywedodd y byddai'r rheini'n cael sylw ym mlwyddyn newydd y Cyngor.

**Penderfynwyd nodi'r Rhaglen Waith hyd at ddiwedd Mai 2015.**

**DIM CAM GWEITHREDU PELLACH YN CODI**

**Y Cynghorydd R. Meirion Jones**
**Cadeirydd**

DRAFFT

This page is intentionally left blank

# PWYLLGOR SGRIWTINI CORFFORAETHOL

## Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 14 Mai, 2015

| | |
|---|---|
| **YN BRESENNOL:** | Cynghorwyr Lewis Davies, Jim Evans, Ann Griffith, Llinos M. Huws, G. O. Jones, Raymond Jones, R. Meirion Jones, R. Llewelyn Jones, Peter Rogers. |
| **WRTH LAW**: | Darpar Brif Weithredwr<br>Pennaeth Busnes y Cyngor/Swyddog Monitro<br>Pennaeth y Gwasanaethau Democrataidd<br>Swyddog Pwyllgor (ATH) |
| **YMDDIHEURIADAU**: | Cynghorydd Victor Hughes |

---

### 1. DATGAN DIDDORDEB

Ni dderbyniwyd yr un datganiad.

### 2. CADEIRYDD

Etholwyd y Cynghorydd R. Meirion Jones yn Gadeirydd y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol.

### 3. IS-GADEIRYDD

Etholwyd y Cynghorydd G.O. Jones yn Is-Gadeirydd y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol.

**Cynghorydd Jim Evans**
**(fel Cadeirydd y Cyngor Sir)**

DRAFFT

This page is intentionally left blank

| CYNGOR SIR YNYS MÔN | |
|---|---|
| **Adroddiad i:** | **PWYLLGOR GWAITH** |
| **Dyddiad:** | **26 MAI 2015** |
| **Pwnc:** | **ADRODDIAD MONITRO'R CERDYN SGORIO – CHWARTER 4 (2014/15)** |
| **Aelod(au) Portffolio:** | **Y CYNGHORYDD ALWYN ROWLANDS** |
| **Pennaeth Gwasanaeth:** | |
| **Awdur yr Adroddiad:**<br>Rhif Ffôn:<br>E-bost: | GETHIN MORGAN<br>01248 752111<br>GethinMorgan@ynysmon.gov.uk |
| **Aelodau Lleol:** | **d/b** |

| A – Argymhelliad/Argymhellion a Rheswm/Rhesymau |
|---|

**1.1** Hwn yw'r cerdyn sgorio olaf ar gyfer blwyddyn ariannol 2014/15. Mae'n portreadu sefyllfa'r Cyngor yn erbyn ei amcanion gweithredol am y flwyddyn.

**1.2** Mae'n dangos bod y rhaglen gwelliant parhaus y mae'r weinyddiaeth gyfredol wedi ei sefydlu yn cael ei gwireddu oherwydd:

- **1.2.1** Mae'r lefelau mynychu wedi gwella.
- **1.2.2** Mae cydymffurfiaeth â pholisïau a'r rheolaeth o salwch trwy gwblhau cyfweliadau dychwelyd i waith yn gwella.
- **1.2.3** Mae nifer yr achosion o salwch sy'n gysylltiedig â straen wedi gostwng
- **1.2.4** Mae nifer y pryderon a godwyd a nifer y cyfeiriadau i'r Ombwdsmon wedi gostwng.
- **1.2.5** Cyrhaeddwyd targedau perfformiad yn y rhan fwyaf o'r dangosyddion gyda 20 allan o 27 dangosydd yn gweld gwelliant.

**1.3** Cwblheir dadansoddiad blynyddol pellach o ddata perfformiad a chymharu gydag awdurdodau lleol eraill trwy'r adroddiad Perfformiad Blynyddol a fydd yn cael sylw gan y Pwyllgor Sgriwtini a'r Pwyllgor Gwaith dros y misoedd nesaf.

**1.4** Gofynnir i'r Pwyllgor sgriwtineiddio'r cerdyn sgorio a nodi'r meysydd y mae'r Tîm Uwch Arweinyddiaeth yn llwyddo i'w gwella i'r dyfodol. Gellir crynhoi'r rhain fel a ganlyn:

- ***1.4.1*** *Rheoli Salwch – parhau i sefydlu'n gadarn y prosesau ac arferion rheoli da mewn perthynas â dysgu o'n gilydd yn ystod 2015/16 er mwyn gwella ein cyfraddau salwch, gostwng costau salwch a gwella trefniadau rheoli salwch fel awdurdod.*

**1.4.2** *Rheoli Cyllid – argymhellir bod angen ystyriaeth pellach i wireddu adrodd ar faterion cyllidol o fewn y cerdyn sgorio yn chwarterol ar gyfer 2015/16.*

**1.4.3** *Rheoli Perfformiad - argymhellir bod y Cyngor yn adolygu targedau 2015/16 yn y cerdyn sgorio diwygiedig i sicrhau eu bod yn heriol ond yn gyraeddadwy.*

**1.4.4** *Gwasanaeth i'r Cwsmer – gwreiddio egwyddorion ein Siarter Cwsmeriaid ledled y Cyngor a sicrhau bod yr ymarfer siopwr cudd yn cael ei gwblhau ddwywaith yn ystod 2015/16 i ddarparu gwaelodlin ar gyfer data cwsmeriaid.*

**1.5** Gofynnir i'r Pwyllgor dderbyn y mesurau lliniarol a amlinellir uchod yn nodi y cynhelir gweithdai ychwanegol gyda'r TUA/Pwyllgor Gwaith/Pwyllgor Gwaith Cysgodol i adolygu'r cerdyn sgorio corfforaethol ar gyfer 2015/16 yn ystod Mai/Mehefin 2015.

| **B – Pa opsiynau eraill wnaethoch chi eu hystyried a beth oedd eich rhesymau dros eu gwrthod ac/neu ddewis yr opsiwn hwn?** |
|---|
| d/b |

| **C – Am ba reswm y mae hwn yn benderfyniad i'r Pwyllgor Gwaith?** |
|---|
| Dirprwywyd y mater hwn i'r Pwyllgor Gwaith. |

| **CH – A yw'r penderfyniad hwn yn gyson â'r polisi a gymeradwywyd gan y Cyngor llawn?** |
|---|
| Ydi |

| **D – A yw'r penderfyniad hwn o fewn y gyllideb a gymeradwywyd gan y Cyngor?** |
|---|
| Ydi |

| **DD – Gyda phwy wnaethoch chi ymgynghori?** | | **Beth oedd eu sylwadau?** |
|---|---|---|
| **1** | **Prif Weithredwr / Uwch Dim Arweinyddiaeth (UDA)** (mandadol) | Ystyriwyd hwn gan y TUA yn ei gyfarfod ar 11 Mai ac adlewyrchir ei sylwadau yn yr adroddiad. |
| **2** | **Cyllid / Adran 151** (mandadol) | Dim sylwadau |
| **3** | **Cyfreithiol / Swyddog Monitro** (mandadol) | Dim sylwadau |
| **4** | **Adnoddau Dynol (AD)** | |

| | | |
|---|---|---|
| **5** | **Eiddo** | |
| **6** | **Technoleg Gwybodaeth Cyfathrebu (TGCh)** | |
| **7** | **Sgriwtini** | |
| **8** | **Aelodau Lleol** | |
| **9** | **Unrhyw gyrff allanol / arall/eraill** | |

| **E – Risgiau ac unrhyw gamau lliniaru (os yn berthnasol)** | | |
|---|---|---|
| **1** | **Economaidd** | |
| **2** | **Gwrthdlodi** | |
| **3** | **Trosedd ac Anhrefn** | |
| **4** | **Amgylcheddol** | |
| **5** | **Cydraddoldebau** | |
| **6** | **Cytundebau Canlyniad** | |
| **7** | **Arall** | |

| **F - Atodiadau:** |
|---|
| Atodiad A – Adroddiad Monitro'r Cerdyn Sgorio – Chwarter 4, 2014/15 & Cerdyn Sgorio. |

| **FF – Papurau Cefndir (cysylltwch os gwelwch yn dda gydag awdur yr Adroddiad am unrhyw wybodaeth bellach):** |
|---|
| • Adroddiad Monitro'r Cerdyn Sgorio 2014/15 – Chwarter 3 (fel y cyflwynwyd i'r Pwyllgor Gwaith fis Chwefror 2015 ac a dderbyniwyd ganddo). |

**ATODIAD A**

**ADRODDIAD MONITRO'R CERDYN SGORIO – CHWARTER 4 (2014/15)**

## 1. CYFLWYNIAD

1.1. Hwn yw'r cerdyn sgorio olaf ar gyfer blwyddyn ariannol 2014/15. Mae'n portreadu sefyllfa'r Cyngor yn erbyn ei amcanion gweithredol am y flwyddyn.

1.2. Mae'n dangos bod y rhaglen gwelliant parhaus y mae'r weinyddiaeth gyfredol wedi ei sefydlu yn cael ei gwireddu oherwydd:

1.2.1. Mae'r lefelau mynychu wedi gwella.

1.2.2. Mae cydymffurfiaeth â pholisïau a'r rheolaeth o salwch trwy gwblhau cyfweliadau dychwelyd i waith yn gwella

1.2.3. Mae nifer yr achosion o salwch sy'n gysylltiedig â straen wedi gostwng

1.2.4. Mae nifer y pryderon a godwyd a nifer y cyfeiriadau i'r Ombwdsmon wedi gostwng

1.2.5. Cyrhaeddwyd targedau perfformiad yn y rhan fwyaf o'r dangosyddion gyda 20 allan o 27 dangosydd yn gweld gwellianT.

1.3 Cwblheir dadansoddiad blynyddol pellach o ddata perfformiad a chymharu gydag awdurdodau lleol eraill trwy'r adroddiad Perfformiad Blynyddol a fydd yn cael sylw gan y Pwyllgor Sgriwtini a'r Pwyllgor Gwaith dros y misoedd nesaf.

1.4 Yn Chwarter 1, bydd angen i ni fel Cyngor ddatblygu mwy ar y cerdyn sgorio ar gyfer y flwyddyn i ddod â'r dangosyddion cysylltiedig i egluro ein blaenoriaethau perfformiad ar gyfer 2015/16. Cychwynnir y broses hon yn ystod Mai 2015.

## 2. CERDYN SGORIO CORFFORAETHOL

2.1 Mae'r cerdyn sgorio yn parhau i ddatblygu a gwreiddio, gan adlewyrchu newidiadau o flwyddyn i flwyddyn. Penderfynwyd ar y dangosyddion yn y cerdyn sgorio cyfredol trwy broses o ymgysylltu ac ymgynghori gyda'r Penaethiaid, y TUA, y Pwyllgor Gwaith a'r Pwyllgor Gwaith Cysgodol. Cychwynnir yr ymarfer hwn yn awr ar gyfer 2015/16.

2.2 Mae'r cerdyn sgorio (Atodiad 1) yn dangos y sefyllfa ar ddiwedd Chwarter 4 a gofynnir i'r Pwyllgor Gwaith a'r Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol ei ystyried.

## 3. YSTYRIAETHAU

**3.1** Hon hyw'r ail flwyddyn o gasglu ac adrodd ar ddangosyddion perfformio mewn dull cydlynol. Mae'r Cyngor yn gweld patrymau yn amlygu eu hunain mewn perthynas â nifer o'r dangosyddion hynny.

**3.2** Mae'n bwysig nodi y gwnaed cais y byddai'r cerdyn sgorio ar gyfer eleni yn cynnwys:

- Dadansoddiad pellach o dueddiadau
- Trem yn ôl ar berfformiad y flwyddyn flaenorol

- Cydnabod dangosyddion penodol mewn perthynas â'r safle o ran chwarteli.


Mae hyn o gymorth gyda'r dadansoddiadau chwarterol ac yn golygu y gellir ystyried perfformiad gan ddefnyddio nifer o elfennau cymharu gwahanol.

**3.3** I bwrpas y dadansoddiad ar gyfer Chwarter 4, cyflwynwyd data mewn perthynas â thueddiadau blynyddol o ran perfformiad h.y. i ddangos a yw'r dangosyddion wedi gwella neu waethygu dros y flwyddyn a aeth heibio.

## 3.4 RHEOLI POBL

**3.4.1** Gwelwyd bod cyfraddau salwch yn ystod Chwarter 4 (dangosydd 1 ar y cerdyn sgorio dan Rheoli Pobl) wedi gwella ychydig bach yn erbyn canlyniadau Ch3 ac ar ddiwedd y flwyddyn a gwelwyd bod 11.54 o ddyddiau wedi eu colli ar gyfartaledd yn erbyn targed o 10 diwrnod ar gyfer y flwyddyn.


**3.4.2** Mae hyn yn oddeutu 1 diwrnod yn well am bob gweithiwr amser llawn cyfatebol o gymharu â data 2013/14. Gellir gweld y gwelliant yn y graff isod (Tabl 1). Mae hyn yn ganlyniad cadarnhaol ar gyfer y flwyddyn ac mae tystio i'r ymgyrch barhaus i ostwng absenoldebau salwch ledled y Cyngor. Fodd bynnag, mae'n bwysig nodi ein bod yn parhau i fod yn 1.5 o ddyddiau dros ein targed corfforaethol o 10 ar gyfer gweithwyr amser llawn cyfatebol.




Tabl 1

**3.4.3** Mae dadansoddiad o'r data cysylltiedig yn dangos mai un o'r prif resymau pam na lwyddwyd i gwrdd â'r targed corfforaethol eleni oedd oherwydd cyfraddau salwch

tymor hir (gweler Tabl 2 isod). Eleni, gwelwyd oddeutu 2,000 mwy o ddyddiau'n cael eu colli oherwydd salwch tymor hir.




Tabl 2

***3.4.4*** Roedd salwch tymor hir yn 53% o'n cyfraddau salwch ar gyfer 2014/15 o gymharu â 49% yn 2013/14.

***3.4.5*** Mae ein cyfraddau salwch tymor byr ar gyfer Chwarter 4(3,886.61 o ddyddiau) wedi gwella eto o gymharu â'r un cyfnod y llynedd (4,446.54 o ddyddiau). Collwyd 12,777 o ddyddiau gwaith oherwydd salwch tymor byr, sef gwelliant o bron i 3,500 o ddyddiau o gymharu â 13/14 (16,272 o ddyddiau). Dangosir hyn yn Nhabl 3.





Table 3

**3.4.6** Er bod hwn yn gam cadarnhaol yn y cyfeiriad iawn mae'n parhau i fod yn berfformiad gwael o gymharu â gweddill yr awdurdodau lleol yng Nghymru lle rhagwelir y byddai ein perfformiad yn y chwartel is.

**3.4.7** Nodwyd cyfraddau salwch ar gyfer 2014/15 fel dangosydd o arwyddocâd cenedlaethol ac maent wedi eu categoreiddio fel mesur atebolrwydd cyhoeddus gan Lywodraeth Cymru. Mae hynny'n golygu y bydd y data cymharol yn cael ei ddefnyddio i bortreadu cyfraddau salwch ar draws awdurdodau lleol yng Nghymru.

**3.4.8** ***Mae'r UDA yn argymell felly fod Swyddogion yn ymchwilio ac yn rheoli'r rhesymau y tu ôl i'r cyfraddau salwch tymor hir sydd ar gynnydd ac yn parhau gyda'n hymgyrch i ostwng cyfraddau salwch ymhellach.***

**3.4.9** O ran ffigyrau absenoldeb salwch - mae pob gwasanaeth wedi cael gwahanol darged o ran salwch yn seiliedig ar ddata / tueddiadau hanesyddol. Mae'r targedau hyn wedi cael eu gweithio allan mewn modd sy'n gwneud targedau'n fwy cyraeddadwy ac, o ganlyniad, yn fwy ystyrlon i'r Gwasanaethau yn eu cyfanrwydd.


**3.4.10** Petai'r holl dargedau wedi cael eu cyflawni, byddai'r Cyngor wedi cwrdd â'i darged absenoldeb salwch o 10 niwrnod fesul ALlC.

***3.4.11 Argymhellir felly bod yr holl wasanaethau'n derbyn eu targedau absenoldeb salwch diwygiedig ar gyfer 2015/16 gyda'r fethodoleg gysylltiedig, drwy'r UDA erbyn diwedd y chwarter cyntaf a bydd hynny'n fynegiant clir o awydd y Cyngor i ostwng cyfraddau salwch ymhellach.***

**3.4.12** Mae'r modd y caiff salwch ei 'reoli' yn gysylltiedig â chyfraddau salwch. Mae cydymffurfiaeth staff gyda pholisïau salwch corfforaethol sy'n cynnwys cyfweliadau dychwelyd i'r gwaith yn rhan hanfodol o'r broses reoli yn y Cyngor *(dangosydd rhif 5 ar y cerdyn sgorio)*.

**3.4.13** Mae'r Cyngor yn parhau i sefydlu'r arfer hwn yn gadarn ar draws ei wasanaethau. Sefydlwyd y gwelliant hwn ymhellach yn ystod Ch4, gyda Chyfweliadau Dychwelyd i'r Gwaith (CDG) yn cynyddu o 59% ar ddiwedd 2013/14 i ffigwr cronnol o 85% yn 2014/15 (gweler tabl 4).

**3.4.14** Mae perfformiad Ch4, sef 89% yn dystiolaeth bellach o'r gwelliant hwn.




Tabl 4

Tud 7 o 2

**3.4.15** O ran 'rheoli' salwch a chydymffurfiaeth staff gyda pholisïau salwch corfforaethol, gwelwyd gwelliant sylweddol mewn perthynas ag arferion sy'n gysylltiedig â dychwelyd i'r gwaith (gweler 3.3.10).

***3.4.16 Mae'r UDA yn awgrymu y dylid rhoddi rhagor o sylw i, a chanolbwyntio ar, reoli absenoldeb salwch tymor byr ailadroddus lle cyrhaeddwyd y pwyntiau sbardun a lle cynhelir cyfarfodydd adolygu presenoldeb (CAP).***

**3.4.17** Un o'r tueddiadau a oedd yn peri pryder yn yr adroddiad ar Ch2, oedd y % o staff a gafodd adolygiadau datblygiad proffesiynol o fewn yr amserlen (*dangosydd 9 dan Rheoli Pobl*). O'r sampl o 10% o staff a gynhaliwyd gan AD, gwelwyd mai dim ond 53% o holl staff yr Awdurdod oedd wedi cael adolygiad.

***3.4.18*** Yn dilyn y ffenestr ar gyfer cynnal ADP yn Ch4, cynhaliodd AD unwaith eto sampl o 10% o'r staff ac, yn dilyn y dadansoddiad, gwelwyd bod cyfanswm o 76% wedi cael eu cwblhau o fewn yr amserlen (*dangosydd 9 dan Rheoli Pobl*). Mae hyn yn welliant o gymharu â'r llynedd ond yn arwydd hefyd bod angen gwella ymhellach er mwyn sicrhau fod arferion gweithio'r staff yn alinio gyda blaenoriaethau'r gwasanaethau a'r Cyngor.

***3.4.19 Mae'r UDA o'r herwydd yn argymell y dylid parhau i sefydlu'n gadarn brosesau ac arferion rheoli da mewn perthynas ag absenoldeb salwch drwy ddysgu gan ein gilydd yn ystod 2015/16 er mwyn gostwng ymhellach ein cyfraddau salwch a chostau hynny i'r Awdurdod.***

### 3.5 RHEOLAETH ARIANNOL

**3.5.1** Doedd dim gwybodaeth Ch4 ar gael ar gyfer cwblhad yr adroddiad yma.

**3.5.2 Mae'r UDA yn argymell bod angen ysytriaeth pellach i adrodd ar faterion ariannol fel eu bod yn disgyn o fewn adroddiadau'r cerdyn sgorio yn chwarterol yn 2015/16.**

### 3.6 RHEOLI PERFFORMIAD

**3.6.1** Mae'r cerdyn sgorio ar gyfer Rheoli Perfformiad wedi cael ei ddiwygio ar gyfer y chwarter hwn er mwyn dangos perfformiad o gymharu â'r tueddiadau o flwyddyn i flwyddyn. Gwnaed hyn am ddau reswm -

3.6.1..1 hwyluso dadansoddiad
3.6.1..2 dangos gwelliant

Fe welir o'r tueddiadau hyn fod 20 o'r dangosyddion wedi gwella a bod 7 wedi dirywio o flwyddyn i flwyddyn.

**3.6.2** Ar ddiwedd Ch4, mae gennym 6 dangosydd sy'n tanberfformio yn erbyn eu targed blynyddol am y flwyddyn.

**3.6.3** Mae un dangosydd yn y Gwasanaethau Oedolion yn dangos tanberfformiad -

(i) *03 - SCA/018b - y % o bobl sy'n gofalu am Oedolion sydd wedi cael adolygiad/asesiad o'u hanghenion* sy'n ymddangos yn **GOCH** ar y cerdyn sgorio. Mae'r canlyniad ar gyfer Ch4 (57.1%) yn welliant o gymharu â'r canlyniad ar gyfer Ch3 (50.3%), fodd bynnag, mae'r canlyniad ymhell islaw'r targed o 70%.

Gofynnodd 564 o bobl am asesiad neu adolygiad a chafodd 92% (521) o'r rhain eu hasesu. Yn ychwanegol at y rhain, mae 348 o gleientiaid eraill a wrthododd asesiad ond rhaid eu cynnwys yn y dangosydd perfformiad hwn. Mae'r cleientiaid ychwanegol hyn yn rhoi argraff ffug o berfformiad isel mewn perthynas â'r DP hwn.

Nodwyd y byddai'r canlyniad hwn ar gyfer 14/15 yn golygu ein bod yn parhau i fod yn y chwartel uchaf o gymharu â 13/14 ac o'r herwydd, dylid ceisio gosod targed diwygiedig ar gyfer 15/16.

**3.6.4** Mae un dangosydd yn y Gwasanaethau Plant yn dangos tanberfformiad –

(i) 11 – *SCC/041a – mae'r % o blant cymwys, perthnasol a phlant a oedd yn berthnasol gynt ac sydd â'r cynlluniau llwybr gofynnol yn ymddangos yn* **GOCH** ar y cerdyn sgorio. Mae'r canlyniad ar gyfer y flwyddyn sef 78.26% yn welliant bychan o gymharu â'r llynedd ond byddai'n parhau i olygu ein bod yn y chwartel isaf o gymharu â chanlyniadau 2013/14.

Y rheswm dros beidio â chyflawni'r targed am y dangosydd hwn yw bod 4 o'r 23 o bobl ifanc perthnasol wedi dewis peidio â chymryd rhan yn y broses hon.

**3.6.5** Mae un dangosydd yn y Gwasanaeth Tai yn dangos tanberfformiad –

(i) *14 - HHA/017a – Mae nifer y dyddiau ar gyfartaledd y mae'r holl deuluoedd digartref yn eu treulio mewn llety gwely a brecwast yn ymddangos yn* **GOCH** ar y cerdyn sgorio. Mae'r canlyniad ar gyfer 2014/15 (76.9 o ddiwrnodau) wedi gwella o gymharu â 2013/14 (90.8 o ddiwrnodau) ond eto i gyd, byddem yn parhau i fod yn y chwartel isaf o gymharu â chanlyniadau 2014/14.

**3.6.6** Mae dau ddangosydd yn yr Adran Dysgu Gydol Oes yn dangos tanberfformiad –

(i) *17 - LCL/004 - Mae nifer y deunyddiau llyfrgell a fenthyciwyd yn ystod y flwyddyn yn ymddangos yn* **GOCH** ar y cerdyn sgorio. Mae nifer y deunyddiau a fenthyciwyd, sef 287.5k, i lawr 21.5k o gymharu â 309k yn 2013/14. O gymharu â chanlyniadau cenedlaethol 2013/14, byddem yn gweld bod y dangosydd hwn yn y chwartel isaf ar gyfer y flwyddyn.

Er bod y dangosydd uchod wedi dirywio, gwelwyd cynnydd o 73k yn nifer yr ymweliadau â'r Gwasanaeth Llyfrgell (dangosydd 16 ar y cerdyn sgorio) a hynny o 219k i 292k yn ystod y flwyddyn.

Mae angen i'r Cyngor yn awr sicrhau bod yr ymweliadau ychwanegol hyn yn arwain at gynnydd yn nifer y deunyddiau a fenthycir yn 2015/16 tra hefyd yn parhau i gynyddu nifer yr ymweliadau a'r llyfrgelloedd.

(ii) *23 - Nifer y dyddiau a gollwyd oherwydd gwaharddiadau dros dro - Cynradd* yn ymddangos yn **GOCH** ar y cerdyn sgorio. Collwyd 27 o ddiwrnodau oherwydd gwaharddiadau yn ystod Tymor yr Hydref. Mae hyn yn cymharu'n anffafriol gyda chyfanswm y llynedd sef 37.5 o ddiwrnodau ar gyfer y cyfan o flwyddyn academaidd 2013/14.

Nid oedd data ar gyfer Tymor y Gwanwyn ar gael ar adeg paratoi'r adroddiad hwn a bydd yn cael ei gyflwyno yng ngherdyn sgorio Ch1 2015/16.

**3.6.7** Mae un dangosydd yn y Gwasanaeth Adfywio Economaidd a Chymunedol yn dangos tanberfformiad –

(i) *19 – LCS/002b – Mae nifer yr ymweliadau i ganolfannau chwaraeon a hamdden yr Awdurdod Lleol yn ystod y flwyddyn pryd cymerodd yr ymwelwyr ran mewn gweithgareddau corfforaethol yn ymddangos yn* **GOCH** ar y cerdyn sgorio. Mae'r cyfanswm o 591k o ymweliadau, 29k yn is na'r targed o 620k ac mae'n dangos dirywiad yn y perfformiad o gymharu â 13/14 pryd cafwyd 614k o ymweliadau.

Llwyddwyd i gwrdd â'r targedau mewn perthynas â'r dangosydd hwn trwy'r flwyddyn ac ni ragwelwyd na fyddai modd cyflawnir' targed yn ystod Ch4. Fodd bynnag, credir mai'r gwaith sy'n cael ei wneud yng Nghanolfan Hamdden Caergybi a'r gostyngiad yn nifer yr ymweliadau i gyfleuster awyr agored, sef Cwrs Golff Llangefni yw'r rhesymau am y dirywiad mewn perfformiad.

Byddai'r perfformiad ar gyfer y flwyddyn o gymharu â chanlyniadau 13/14 yn ein gweld yn mynd i lawr 1 chwartel o'r canolrif uwch i'r canolrif is.

Dylid nodi hefyd felly bod perfformiad yn y dyfodol yn debygol o aros yn chwartel isaf oherwydd cau'r Cwrs Golff. Fodd bynnag, mae modd, ac yn wir, fe ddylid medru gwrthbwyso hyn, gan y cynnydd yn nifer yr ymweliadau i'r canolfannau hamdden yn ystod 2015/16 a ragamcenir (£11,000).

**3.6.8** Er bod y cyfan o'r dangosyddion eraill yn **WYRDD** yn yr Adain Rheoli Perfformiad, dylid nodi nad yw hyn yn golygu y bydd ein safle ar sail genedlaethol yn gwella ar draws yr holl feysydd. Yn seiliedig ar ganlyniadau chwartel 13/14, byddai 7 o'n dangosyddion yn newid chwarteli -

3.6.8..1 Byddai 5 yn gwella o gymharu â chanlyniadau 13/14
3.6.8..2 Byddai 2 yn dirywio.

**3.6.9** Er bod hon yn stori gadarnhaol ar y cyfan, ni fyddwn yn gwybod sut yr ydym wedi perfformio o gymharu ag eraill hyd oni chaiff canlyniadau 14/15 eu cyhoeddi ym mis Medi. Ceir darlun cyffredinol yng nghorff ein hadroddiad perfformiad blynyddol a fydd yn cael ei ystyried gan y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol a chan y Pwyllgor Gwaith cyn ei fabwysiadu gan y Cyngor yn yr hydref.

**3.6.10** Mae nifer fawr o'r dangosyddion wedi cyflawni eu targedau ar gyfer y flwyddyn. Mae hyn yn galonogol ac yn arwydd o welliant yn lleol. Fodd bynnag, os ydym am wneud cynnydd a gwella ein statws fel Cyngor sy'n cyflawni, ***argymhellir fod y UDA yn adolygu'r targedau ar gyfer 2015/16 er mwyn sicrhau eu bod yn heriol ond eto yn gyraeddadwy ac nad ydym yn mynd yn hunanfodlon.***

## 3.7 GWASANAETH CWSMER

**3.7.1** O ran Rheoli Cwynion gan Gwsmeriaid, roedd 65 o gwynion ffurfiol wedi dod i law erbyn diwedd Ch4. Mae 61 o'r 65 wedi derbyn ymateb ac o'r cwynion hyn, cefnogwyd 5 yn llawn, 11 yn rhannol ond ni chefnogwyd y 45 oedd yn weddill. Mae'r ffigwr terfynol o 65 o gwynion yr un ag yr oedd yn 13/14.

**3.7.2** Ymatebwyd i 90.8% o gwynion o fewn yr amserlen gydag ond 6 yn derbyn ymatebion hwyr. Mae hyn yn adlewyrchiad o'r modd y mae'r Cyngor yn rheoli'n gyffredinol faterion sy'n codi a'n bod yn gwneud ein gorau glas i ganolbwyntio ar y cwsmer, y dinesydd a'r gymuned fel y nodwyd yn y Cynllun Corfforaethol ar gyfer 2013-17.

**3.7.3** O safbwynt mabwysiadu dull sy'n canolbwyntio ar y cwsmer, un maes lle cafodd swyddogion anhawster cyflawni'r targed oedd ymateb i geisiadau rhyddid gwybodaeth o fewn yr amserlen. Mae'r canlyniad terfynol o 65% islaw'r targed o 80% ar gyfer y flwyddyn. Fodd bynnag, mae hyn wedi gwella dros y flwyddyn ac yn gam i'r cyfeiriad iawn. Cafwyd cyfanswm o 894 o geisiadau Rhyddid Gwybodaeth yn ystod y flwyddyn gyda 3541 o gwestiynau unigol i'r gwasanaethau eu hateb. Mae hyn yn cyfateb i oddeutu 14 o gwestiynau y diwrnod.

**3.7.4** Dangosydd pwysig arall wrth edrych ar ymagwedd sy'n canolbwyntio ar y cwsmer fyddai'r ganran o alwadau ffôn na chawsant eu hateb (*rhif 12 ar y tabl gwasanaeth cwsmer*). Mae'r dangosydd hwn wedi gweld gostyngiad i 16%, sydd islaw'r targed o 15% am y tro cyntaf eleni. Bydd hyn yn cael ei fonitro eto yn ystod 2015/16 ac yn cael ei dracio fel un o'r dangosyddion sy'n gysylltiedig â'n Siarter i Gwsmeriaid ac y bydd angen ei ymwreiddio'n llwyr yn ystod y flwyddyn.

**3.7.5** Oherwydd mai cynllun peilot oedd y Siarter Cwsmer nad ydyw eto wedi ei ymsefydlu'n gadarn mewn arferion gweithio, nid yw'r dangosyddion a oedd yn rhan o'r ymarfer siopwr cudd wedi cael eu cwblhau yn unol â'r disgwyl. ***Mae'r TUA yn argymell felly fod gwaelodlin o ddata sy'n ymwneud â chanolbwyntio ar y cwsmer yn cael ei gofnodi yn ystod 2015/16 fel rhan o'r Prosiect Rhagoriaeth Gwasanaeth Cwsmer a bod yr ymarfer siopwr cudd yn cael ei gwblhau ddwywaith er mwyn cyflawni hyn.***

# 4. ARGYMHELLION

**4.1** Gofynnir i'r Pwyllgor sgriwtineiddio'r cerdyn sgorio a nodi'r meysydd hynny y mae'r Tîm Uwch Arweinyddiaeth yn llwyddo i sicrhau gwelliannau ynddynt ar gyfer y dyfodol. Gellir crynhoi rhain fel a ganlyn -

*4.1.1 Rheoli Salwch – parhau i ymwreiddio prosesau ac arferion rheoli da mewn perthynas â dysgu o'n gilydd yn ystod 2015/16 er mwyn gwella ein cyfraddau salwch, gostwng costau salwch a gwella trefniadau rheoli salwch fel awdurdod.*

*4.1.2 Rheoli Cyllid – argymhellir bod angen ystyriaeth pellach i wireddu adrodd ar faterion cyllidol o fewn y cerdyn sgorio yn chwarterol ar gyfer 2015/16.*

*4.1.3 Rheoli Perfformiad - argymhellir bod y Cyngor yn adolygu targedau 2015/16 yn y cerdyn sgorio diwygiedig i sicrhau eu bod yn heriol ond yn gyraeddadwy.*

*4.1.4 Gwasanaeth i'r Cwsmer – gwreiddio egwyddorion ein Siarter Cwsmeriaid ledled y Cyngor a sicrhau bod yr ymarfer siopwr cudd yn cael ei gwblhau ddwywaith yn ystod 2015/16 i ddarparu gwaelodlin ar gyfer data cwsmeriaid.*

**4.2** Gofynnir i'r Pwyllgor dderbyn y mesurau lliniaru a amlinellir uchod a nodi y cynhelir gweithdy/gweithdai pellach gydag aelodau'r UDA / Pwyllgor Gwaith a'r Pwyllgor Gwaith Cysgodol er mwyn adolygu'r cerdyn sgorio corfforaethol ar gyfer 2015/16 tuag at ddiwedd mis Mai / dechrau Mehefin 2015.

Corporate Scorecard C-Q4

| Customer Service | Actual | Target | RAG | Trend | 13/14 Result |
|---|---|---|---|---|---|
| 01) No of Complaints received | 65 | 65 | Green | ⇨ | 65 |
| 02) No of Complaints upheld | 16 | 15 | Amber | ⇨ | 15 |
| 03) % of Complaints acknowledged within 5 working days | 100% | 100% | Green | ⇨ | - |
| 04) % of written responses within 20 days | 100% | 100% | Green | ⇨ | - |
| 05) Number of concerns | 71 | 92 | Green | ⇩ | 92 |
| 06) Number of compliments | 521 | - | - | - | - |
| 07) No. of Ombudsman referrals upheld | 0 | 2 | Green | ⇨ | 2 |
| 08) Mystery Shopper Scores 0-4 | - | - | - | - | - |
| 09) Mystery Shopper Scores 5-7 | - | - | - | - | - |
| 10) Mystery Shopper Scores 8-10 | - | - | - | - | - |
| 11) Average time taken to answer telephone (sec) | 9 | 15 | Green | ⇨ | - |
| 12) % of telephone calls abandoned | 16% | 15 | Amber | ⇩ | - |
| 13) % of correspondance acknoweldged to within 5 working days (mystery shopper) | - | - | - | - | - |
| 14) % of correspondance repied to within 15 working days (mystery shopper) | - | - | - | - | - |
| 15) % of FOI Requests Responded to Within Timescale | 68% | 80% | Red | ⇨ | - |
| 16) Number of FOI Requests Responded to Within Timescale | 608 | - | - | - | - |

| People Management | Actual | Target | RAG | Trend | 13/14 Result |
|---|---|---|---|---|---|
| 01) Sickness absence - average working days/shifts lost | 11.53 | 10 | Red | ⇨ | 12.38 |
| 02) No of staff with attendance of 100% (Headcount) | 777 | - | - | ⇧ | 775 |
| 03) Short Term sickness | 12777 | - | - | - | - |
| 04) Long Term sickness | 14143 | - | - | - | - |
| 05) % of RTW interview held | 85% | 80% | Green | - | 59% |
| 06) % of stress related sickness | 5% | 9% | Green | - | 10% |
| 07) No. of occupational health referrals | 374 | - | - | - | 362 |
| 08) No. or workplace injuries | 257 | 315 | Green | ⇧ | 315 |
| 09) % of PDR's completed within timeframe | 76% | 80% | Amber | ⇧ | 53% |
| 10) Number of staff authority wide, including teachers and school based staff (FTE) | 2335.77 | - | - | - | 2366 |
| 11) Number of staff authority wide, excluding teachers and school based staff(FTE) | 1361.85 | - | - | - | 1395 |
| 12) Local Authority employees leaving (%) (Turnover) (Annual) | 6% | - | - | - | 4% |
| 13) Local Authority employees made redundant (compulsory) | 29 | - | - | - | - |
| 14) No. of Agency Staff | 21 | - | - | ⇨ | 18 |
| 15) No of grant funded posts | 122.5 | - | - | ⇨ | 128.75 |
| 16) % of staff with email facility | 57% | - | - | ⇧ | 53% |

| Financial Management | Spend (£) | Variance (%) | RAG | Trend | 13/14 Result |
|---|---|---|---|---|---|
| 01) Projected end of year position | - | - | - | - | - |
| 02) Spend v Profile (Over / under spending) Service 1 | - | - | - | - | - |
| 03) Spend v Profile (Over / under spending) Service 2 | - | - | - | - | - |
| 04) Spend v Profile (Over / under spending) Service 3 | - | - | - | - | - |
| 05) Achievement against efficiencies (over/under) Service 1 | - | - | - | - | - |
| 06) Achievement against efficiencies (over/under) Service 2 | - | - | - | - | - |
| 07) Achievement against efficiencies (over/under) Service 3 | - | - | - | - | - |
| 08) Income v Targets – (Under / Overachieving) Service 1 | - | - | - | - | - |
| 09) Income v Targets – (Under / Overachieving) Service 2 | - | - | - | - | - |
| 10) Income v Targets – (Under / Overachieving) Service 3 | - | - | - | - | - |
| 11) Aged debt analysis across all categories of debt | - | - | - | - | - |
| 12) Spend v Salary (£) | - | - | - | - | - |
| 13) Spend v Salary (% of budget) | - | - | - | - | - |
| 14) Cost of agency staff (£'000) | - | - | - | - | - |
| 15) Cost of sickness absence – direct & indirect (Notional cost) | - | - | - | - | - |
| 16) Grants Income – Welsh Government | - | - | - | - | - |
| 17) Grants Income - European | - | - | - | - | - |
| 18) Grants Income – Other | - | - | - | - | - |

| Performance Management | Actual | Target | RAG | Trend | Year on Year Trend | 13/14 Result | 13/14 Quartile |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 01) SCA/002a: The rate of older people (aged 65 or over) supported in the community per 1,000 population aged 65 or over at 31st March | 49.46 | 55 | Green | ↓ | ↑ | 54.41 | Lower |
| 02) SCA/002b: The rate of older people (aged 65 or over) whom the authority supports in care homes per 1,000 population aged 65 or over at 31 March | 23.28 | 23 | Green | ↑ | ↓ | 18.16 | Upper Median |
| 03) SCA/018b: The percentage of carers of adults who had an assessment or review of their needs in their own right during the year | 57.1 | 70 | Red | ↑ | ↓ | 63.2 | Upper |
| 04) SCA/018c: The % of carers of adults who were assessed or re-assessed in their own right during the year who were provided with a service | 96 | 75 | Green | ↑ | ↑ | 73.9 | Upper Median |
| 05) SCA/019: The % of adult protection referrals completed where the risk has been managed | 91.92 | 90 | Green | ↓ | ↑ | 88.9 | Lower |
| 06) SCC/004: The percentage of children looked after on 31 March who have had three or more placements during the year | 3.41 | 8 | Green | ↑ | ↑ | 7.79 | Upper Median |
| 07) SCC/011a: The % of initial assessments that were completed during the year where there is evidence that the child has been seen by the Social Worker | 95.89 | 100 | Green | ↑ | ↑ | 91.63 | Upper |
| 08) SCC/042a: The % of initial assessments completed within 7 working days | 94.77 | 85 | Green | ↓ | ↑ | 90.86 | Upper |
| 09) SCC/014: The % of initial child protection conferences due in the year which were held within 15 working days of the strategy | 98.15 | 100 | Green | ↑ | ↑ | 92.66 | Lower Median |
| 10) SCC/025: The % of statutory visits to looked after children due in the year that took place in accordance with regulations | 93.53 | 100 | Green | ↓ | ↑ | 90.54 | Upper Median |
| 11) SCC/041a: The percentage of eligible, relevant and former relevant children that have pathway plans as required | 78.26 | 100 | Red | ↓ | ↑ | 77.78 | Lower |
| 12) SCC/43a: The % of required core assessments completed within 35 working days | 77.88 | 85 | Green | ↓ | ↑ | 71.68 | Lower |
| 13) HHA/002 The average number of days between homeless presentation and discharge of duty for households found to be statutorily homeless | 362 | 600 | Green | ↓ | ↑ | 531 | Lower |
| 14) HHA/017a The average number of days all homeless households spent in bed and breakfast. | 76.9 | 42 | Red | ↑ | ↑ | 90.8 | Lower |
| 15) HHA/017b the average number of days that all homeless households spent in other forms of temporary accommodation | 372.4 | 650 | Green | ↓ | ↑ | 621.6 | Lower |
| 16) LCL/001b: The no. of visits to public libraries during the year | 292k | 219k | Green | ↑ | ↑ | 219k | Lower |
| 17) LCL/004: The no. of library materials issued, during the year | 287.5k | 310k | Red | ↑ | ↓ | 309k | Lower Median |
| 18) No. of attendances (young people) at sports development / outreach activity programmes | 144k | 102k | Green | ↑ | ↑ | 130k | - |
| 19) LCS/002b: The number of visits to local authority sport and leisure centres during the year where the visitor will be participating in physical activity | 591k | 620k | Red | ↓ | ↓ | 614k | Upper Median |
| 27) THS/011c: The % of non-principal (C) roads that are in an overall poor condition | 15.8 | 17 | Green | ↑ | ↑ | 17.6 | Lower |
| 28) Jobs Created | 30 | 25 | Green | ↑ | ↓ | 41 | - |
| 30) The number of actual missed bin collections | 224 | 480 | Green | ↓ | ↓ | 152 | - |
| 32) HLS/010c: Average number of days to complete routine void repair | 10.5 | 30 | Green | ↓ | ↑ | 19.3 | - |
| 31) PLA/004c: The percentage of householder planning applications determined during the year within 8 weeks | 90 | 85 | Green | ↑ | ↑ | - | - |
| 35) School Modernisation Programme | - | - | Green | - | - | - | - |
| 36) Older Adult Social Care Programme | - | - | Green | - | - | - | - |
| 37) Leisure Project | - | - | Green | - | - | - | - |
| 38) Library Project | - | - | - | - | - | - | - |
| 39) Adoption and compliance with a timetable for close of accounts and production of Statement of Accounts | Yes | Yes | Green | - | - | - | - |
| 22) No. of Permanent Exclusions | 0 | 0 | Green | - | - | 0 | - |
| 20) Attendance - Primary (%) | 94.6 | 94.5 | Green | - | - | 94.6 | Lower Median |
| 21) Attendance - Secondary (%) | 93.2 | 93.3 | Green | - | - | 93.4 | Lower Median |
| 23) No. of days lost to temp exclusion - Primary | 34.5 | 25 | Red | ↑ | - | 37.5 | - |
| 24) No. of days lost to temp exclusion - Secondary | 169 | 94 | Red | ↓ | - | 140.5 | - |
| 25) KS4 - % 15 year olds achieving L2+ | - | 56 | - | - | ↑ | 53.8 | Lower Median |
| 26) KS4 - % 15 year olds achieving L1 | - | 96.2 | - | - | ↑ | 96 | Upper |
| 29) No of new apprenticeships under 'Prentisiaeth Menai' | 13 | - | - | → | ↑ | 9 | - |
| 33) % of repairs (BMU) completed first time | - | - | - | - | - | | - |
| 34) Outcome Agreements | - | - | Green | - | - | | - |

# CYNGOR SIR YNYS MÔN

| | |
|---|---|
| **ADRODDIAD I:** | **PWYLLGOR SGRIWTINI** |
| **DYDDIAD:** | **10 MEHEFIN 2015** |
| **PWNC:** | **CYLLIDEB GYFALAF 2014/15 – CANLYNIAD** |
| **AELOD(AU) PORTFFOLIO:** | **Y CYNGHORYDD H E JONES** |
| **PENNAETH GWASANAETH:** | **RICHARD MICKLEWRIGHT (EST. 2601)** |
| **AWDUR YR ADRODDIAD:**<br>**RHIF FFÔN:**<br>**E-BOST:** | **GARETH ROBERTS**<br>**01248 752675**<br>**GarethJRoberts@ynysmon.gov.uk** |
| **AELODAU LLEOL:** | **d/b** |

**A - Argymhelliad/Argymhellion a Rheswm/Rhesymau**

- Roedd y gwariant ar gynlluniau cyffredinol hyd at ddiwedd Mawrth yn £14.1m (88% o'r gyllideb gyfan ar gyfer cynlluniau cyffredinol). Gwariwyd £7.2m ar gynlluniau tai (80% o'r gyllideb gyfan ar gyfer tai) hyd at fis Mawrth. 'Roedd y cyfanswm gwariant yn 85% o'r gyllideb gyfan.
- Argymhellir y dylid nodi'r cynnydd o ran gwariant a derbyniadau yn erbyn y gyllideb gyfalaf.

**B - Pa opsiynau eraill wnaethoch chi eu hystyried a beth oedd eich rhesymau dros eu gwrthod ac/neu ddewis yr opsiwn hwn?**

d/b

**C - Am ba reswm y mae hwn yn benderfyniad i'r Pwyllgor Gwaith?**

- Ym mis Chwefror 2014, gosododd y Cyngor gyllideb gyfalaf o £15.265m, heb gynnwys llithriad ac unrhyw Grantiau a ddyfarnwyd ar ôl y dyddiad hwn.
- Mae'r adroddiad hwn yn nodi perfformiad y Gyllideb Gyfalaf am y flwyddyn ariannol 2014/15 yn ei chyfanrwydd.
- Mae monitro'r gyllideb yn swyddogaeth i'r Pwyllgor Gwaith.

**CH - A yw'r penderfyniad hwn yn gyson â'r polisi a gymeradwywyd gan y Cyngor llawn?**

Ydi

**D - A yw'r penderfyniad hwn o fewn y gyllideb a gymeradwywyd gan y Cyngor?**

Ydi

| **DD -** | **Gyda phwy wnaethoch chi ymgynghori?** | **Beth oedd eu sylwadau?** |
|---|---|---|
| 1 | **Prif Weithredwr / Uwch Dim Arweinyddiaeth (UDA)** (mandadol) | |
| 2 | **Cyllid / Adran 151** (mandadol) | d/b – hwn yw adroddiad y Swyddog Adran 151 |
| 3 | **Cyfreithiol / Swyddog Monitro** (mandadol) | |
| 4 | **Adnoddau Dynol (AD)** | |
| 5 | **Eiddo** | |
| 6 | **Technoleg Gwybodaeth Cyfathrebu (TGCh)** | |
| 7 | **Sgriwtini** | |
| 8 | **Aelodau Lleol** | |
| 9 | **Unrhyw gyrff allanol / arall/eraill** | |

| E – Risgiau ac unrhyw gamau lliniaru (os yn berthnasol) | | |
|---|---|---|
| **1** | **Economaidd** | |
| **2** | **Gwrthdlodi** | |
| **3** | **Trosedd ac Anhrefn** | |
| **4** | **Amgylcheddol** | |
| **5** | **Cydraddoldebau** | |
| **6** | **Cytundebau Canlyniad** | |
| **7** | **Arall** | |

**F - Atodiadau:**

Atodiad A - Adroddiad Monitro'r Gyllideb Gyfalaf – Blwyddyn Lawn 2014/15
Atodiad B - Cyllideb Gyfalaf 2014/15 - Crynodeb : Mawrth 2015
Atodiad C - Rhaglen Gyfalaf Ddiwygiedig am 2014/15 gyda manylion am y Gwariant Cyfalaf a gynlluniwyd ac unrhyw gyllid allanol
Atodiad CH - Llithriad y Rhaglen Gyfalaf i 2015/16

**FF - Papurau Cefndir (cysylltwch os gwelwch yn dda gydag awdur yr Adroddiad am unrhyw wybodaeth bellach):**

- Cyllideb Gyfalaf 2014/15, fel yr argymhellwyd gan y Pwyllgor hwn ar 10 Chwefror 2014;
- Adroddiad monitro cyfalaf chwarter 1 2014/15 (fel y cyflwynwyd i, ac y derbyniwyd gan, y Pwyllgor hwn ar 8 Medi 2014)
- Adroddiad monitro cyfalaf chwarter 2 2014/15 (fel ycyflwynwyd i, ac y derbyniwyd gan y Pwyllgor hwn ar 3 Tachwedd 2014)
- Adroddiad monitro cyfalaf chwarter 3 2014/15 (fel y cyflwynwyd i, ac y derbyniwyd gan y Pwyllgor hwn ar 16 Chwefror 2015)

## 1. CEFNDIR

**1.1** Yn ystod y flwyddyn, adroddwyd yn rheolaidd ar gynnydd o ran gwariant o’r Gyllideb Gyfalaf. Mae’r adroddiad hwn yn dangos y sefyllfa ar ddiwedd Mawrth 2015 ac yn dwyn sylw at unrhyw broblemau a gafwyd. Adroddir ar unrhyw newidiadau sylweddol i ganlyniadau terfynol y Gyllideb Gyfalaf fel y bydd angen. Mae Atodiad B yn dangos crynodeb o’r gwariant yn erbyn y gyllideb. Atodiad C yw’r Rhaglen Gyfalaf ddiwygiedig ar gyfer 2014/15 gyda manylion am y Gwariant Cyfalaf. Mae Atodiad CH yn dangos llithriad arfaethedig yn y Rhaglen Gyfalaf i 2015/16.

## 2. GWARIANT CYFALAF

**2.1** Mae’r gwariant ar eitemau mawr yn y gyllideb gyfalaf fel a ganlyn:-

| Prosiectau Cyfalaf Mawr | Cyllid | Gwariant yn ystod y flwyddyn £’000 | Cyllideb ar gyfer y Flwyddyn £’000 |
|---|---|---|---|
| Atgyweirio Ysgolion | CSYM | 1,199 | 1,171 |
| Grant Cyfalaf Dechrau’n Deg | LIC | 415 | 415 |
| Isadeiledd Strategol yn Ynys Môn – Safleoedd ac Eiddo yn Llangefni a Mona | SCEC/LIC | 1,434 | 1,881 |
| Menter Benthyca Llywodraeth Leol – Priffyrdd (LGBI) | LIC | 1,804 | 1,800 |
| Ffordd Gyswllt Llangefni | LIC/CSYM | 504 | 520 |
| Rhaglen Gwella Mân-ddaliadau | CSYM | 843 | 250 |

**2.2** Roedd gwariant ar gynlluniau cyffredinol hyd at ddiwedd Mawrth yn £14.1m (£19.2m yn 2013/14). Mae hyn yn cyfateb i 88% (93% yn 2013/14) o’r gyllideb gyfan ar gyfer cynlluniau cyffredinol. Y prif reswm am y gostyngiad yn y gwariant o gymharu â’r flwyddyn ariannol flaenorol yw na ddygwyd dau brosiect cyfalaf mawr ymlaen i 2014/15, sef ail-leoli Ysgol y Bont (£6.7m yn 2013/14) a Thâl Cyfartal (£3.3m yn 2013/14). Ni chafodd y Gyllideb Gyfalaf ei gwario’n llawn oherwydd nad oedd rhai cynlluniau wedi eu cwblhau yn ystod y flwyddyn. Un o’r rheini oedd y cynllun Safleoedd ac Eiddo Isadeiledd Strategol, lle mae unedau busnes newydd yn cael eu hadeiladu yn ogystal â gwaith i ddymchwel adeilad Hyfforddiant Môn. Roedd £0.447m heb ei wario yn ystod y flwyddyn a bydd yr arian hwnnw’n cael ei ddwyn ymlaen i 2015/16 fel bod modd cwblhau’r gwaith ym misoedd cynnar y flwyddyn ariannol. Cwblhawyd y rhan fwyaf o’r cynlluniau cyfalaf yn ystod y flwyddyn ac mae’r cyllidebau ar eu cyfer wedi eu gwario’n llawn neu’n agos i hynny. Enghreifftiau o’r rhain yw’r gwaith Adnewyddu Ysgolion lle gwariwyd 97% o gyllideb o £1.2m, y cynllun strwythurau Priffyrdd lle gwariwyd 100% o gyllideb o £0.215m a gwaith Atgyweirio ar Gartref Brwynog lle gwariwyd y cyfan o’r gyllideb o £0.120m.

**2.3** Roedd gwariant hyd at ddiwedd Mawrth ar gynlluniau tai yn £7.2m (£4.9m yn 2013/14), sy’n 80% (59% yn 2013/14) o’r gyllideb gyfan ar gyfer tai. Mae’r gwariant cyfalaf yn uwch na’r llynedd, yn bennaf oherwydd gwaith ar Dai Cyngor, gyda gwariant o £5.5m (£3.2m yn 2013/14) ar ddiwedd y flwyddyn. Ni chafodd y gyllideb gyfalaf ei gwario’n llawn oherwydd peidio â symud ymlaen gyda rhai cynlluniau, megis yr adolygiad o dai gwarchod lle na chafodd dim o’r gyllideb o £0.735m ei wario.

**2.4** Y canlyniad amodol yw £21.3m (£24.1m yn 2013/14) gyda chyllideb o £25.0m (£28.8m yn 2013/14), sy’n golygu bod 85% o’r gyllideb wedi ei wario (84% yn 2013/14).

**2.5** Gellir crynhoi'r gwariant fesul rhaglen fel a ganlyn:-

| | CYFFREDINOL | | TAI (CRT) | | TAI (CRONFA GYFFREDINOL) | | CYFANSWM | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | £000 | % | £000 | % | £000 | % | £000 | % |
| Gwreiddiol | 8,631 | | 5,734 | | 900 | | 15,265 | |
| Dygwyd ymlaen | 4,535 | | 1,351 | | 1,014 | | 6,900 | |
| Newidiadau yn y flwyddyn | 2,842 | | 0 | | 0 | | 2,842 | |
| Cyfanswm ar gael | 16,008 | | 7,085 | | 1,914 | | 25,007 | |
| Gwariant | 14,068 | 88 | 5,519 | 78 | 1,701 | 89 | 21,288 | 85 |
| Llithriad | 1,940 | 12 | 1,566 | 22 | 213 | 11 | 3,719 | 15 |

**2.5.1** Mae hyn yn dangos fod £25.0m ar gael ac wedi ei ddyrannu yn 2014/15, sef £15.3m o'r gyllideb wreiddiol ynghyd â £6.9m ychwanegol a ddygwyd ymlaen a £2.8m net a oedd yn codi yn ystod y flwyddyn.

**2.6** At ei gilydd, disgwylir y bydd prosiectau a chyllidebau sydd yn werth cyfanswm o £3.8m yn llithro i Raglen Gyfalaf 2015/16, fel y gellir gweld yn Atodiad CH.

**2.7** Y risgiau mwyaf sylweddol, fel yr adroddwyd yn ystod y flwyddyn, oedd Rhaglen Ysgolion 21ain Ganrif, y rhaglen gwella mân-ddaliadau a'r cyfrif terfynol ar gyfer gwaith dan gynllun Amgylchedd Arfordirol ar Bier Biwmares ac a gyllidwyd trwy arian Cydgyfeiriant. Bydd Rhaglen Ysgolion 21ain Ganrif yn golygu y bydd yr Awdurdod hwn angen adnoddau cyfalaf sylweddol. Bydd angen i'r cynlluniau rheoli asedau strategol corfforaethol fod wedi eu haleinio'n agos i sicrhau'r derbyniadau cyfalaf y bydd raid wrthynt i ostwng yr angen i fenthyca. Bydd unrhyw arian a fenthycir yn golygu y bydd mwy o bwysau ar gyllidebau i'r dyfodol ac yn cynyddu'r risgiau cyffredinol sy'n gysylltiedig â dyled. Mae'r rhaglen gwella mân-ddaliadau, a gyllidwyd gan dderbyniadau cyfalaf yn sgil gwerthu mân-ddaliadau ac incwm rhentol, yn ei phumed flwyddyn a daw i ben y flwyddyn hon. Mae'r rhaglen yn parhau i redeg ar y blaen i dderbyniadau cyfalaf, gyda diffyg o £2.051m wedi ei ddwyn ymlaen o 2013/14. Mae'r derbyniadau cyfalaf hyd at ddiwedd y flwyddyn yn £1.501m, a rhagwelir y bydd rhagor o fân-ddaliadau yn cael eu gwerthu yn 2015/16 a 2016/17. Mae'r diffyg a ddygwyd ymlaen i 2015/16 ar gyfer y rhaglen gwella mân-ddaliadau yn £1.393m. Y cynllun olaf i'w nodi yw prosiect Pier Biwmares (rhan o Gynllun Amgylchedd Arfordirol). Fel y dywedwyd o'r blaen, er bod y gwaith adnewyddu wedi ei gwblhau, mae trafodaethau'n parhau ynghylch a'r taliad terfynnol am y gwaith a wnaed. Cytunwyd ar ffigwr erbyn hyn rhwng Cyngor Sir Ynys Môn, Capita a'r contractwr.

## 3. Prosiectau Cyfalaf

**3.1** Cynlluniau a phrosiectau mawr a gychwynnwyd yn ystod y flwyddyn:-

**3.1.1** Yr unig brosiectau neu gynlluniau mawr a gychwynnodd yn ystod y flwyddyn oedd y ddau gynllun dan Raglen Ysgolion 21ain Ganrif.

**3.2** Prosiectau a chynlluniau mawr a gwblhawyd yn ystod y flwyddyn:-

**3.2.1** Yr unig brosiect mawr a gwblhawyd yn ystod y flwyddyn oedd cynllun Menter Benthyca Llywodraeth Leol ar gyfer Priffyrdd. Yn sgil y cynllun, buddsoddwyd cyfanswm o £5.3m dros gyfnod o dair blynedd, gan wella cyflwr ac ymarferoldeb asedau priffyrdd yr Awdurdod.

**3.3** Prosiectau a chynlluniau mawr a gychwynnodd yn y blynyddoedd blaenorol ac sy'n parhau y tu draw i 2014/15:-

**3.3.1** Roedd nifer o brosiectau a chynlluniau a oedd wedi cychwyn cyn eleni sy'n rhedeg y tu draw i 2014/15.

**3.3.2** Mae'r rhaglen gwella mân-ddaliadau a gyllidwyd gan dderbyniadau cyfalaf yn sgil gwerthu mân-ddaliadau ac incwm rhentol, yn ei phumed flwyddyn. Mae'r rhaglen yn parhau i redeg ar y blaen i dderbyniadau cyfalaf, gyda diffyg o £2.051m wedi ei ddwyn ymlaen o 2013/14. Mae'r derbyniadau cyfalaf hyd at ddiwedd y flwyddyn yn £1.501m, a rhagwelir y bydd rhagor o fân-ddaliadau yn cael eu gwerthu yn 2015/16 a 2016/17. Mae'r diffyg a ddygwyd ymlaen i 2015/16 ar gyfer y rhaglen gwella mân-ddaliadau yn £1.393m.

**3.3.3** Bydd y Rhaglen Safleoedd ac Eiddo Isadeiledd Strategol a gychwynnodd yn 2013/14 yn parhau i 2015/16. Dan y rhaglen hon, adeiladir unedau busnes newydd a bydd adeilad Hyfforddiant Môn yn cael ei ddymchwel.

**3.3.4** Bydd y rhaglen cerbydau newydd ar gyfer yr Awdurdod yn parhau i 2015/16. Cynhyrchwyd amserlen ar gyfer prynu cerbydau a disgwylir iddynt gael eu prynu erbyn y trydydd chwarter.

## 4. ADNODDAU

### 4.1 Grantiau Cyfalaf

**4.1.1** Mae'r Tabl a ganlyn yn dangos crynodeb grantiau cyfalaf 2014/15:-

| Cynllun Cyfalaf | Dyraniad Grant 2014/15 £'000 | Gwariant £'000 | Y ganran o'r Grant a wariwyd |
|---|---:|---:|---:|
| **Dechrau'n Deg** | 415 | 415 | 100% |
| **Canolfan Iaith Gymraeg** | 139 | 125 | 90% |
| **Lliniaru Llifogydd Biwmares** | 479 | 556 | 100% |
| **Ffordd Gyswllt Llangefni** | 480 | 505 | 100% |
| **Ffyrdd mwy Diogel mewn Cymunedau** | 185 | 181 | 98% |
| **Diogelwch Ffyrdd** | 90 | 90 | 100% |
| **Cronfa Gofal Canolraddol** | 377 | 372 | 99% |
| **Troi Tai'n Gartrefi** | 126 | 116 | 92% |
| **Lleoedd Llewyrchus Llawn Addewid** | 2,050 | 1,967 | 96% |
| **Menter Benthyca Llywodraeth Leol** | 1,800 | 1,804 | 100% |

**4.1.2** Derbyniwyd grant ar gyfer y Ganolfan Iaith Gymraeg ym mis Hydref 2014 ac roedd yn rhaid cwblhau'r holl waith a phrosesu'r biliau o fewn y flwyddyn ariannol. Roedd hon yn her sylweddol o gofio bod rhan o'r cyllid ar gyfer gwaith adeiladu. O'r herwydd, sefydlwyd cronfa wrth gefn o 10% ar gyfer cynllunio'r gwariant a dyna'r rheswm pam mai dim ond 90% o'r grant sydd wedi ei wario.

**4.1.3** Roedd y gwariant ar gynllun Lliniaru Llifogydd Biwmares a Chynllun Ffordd Gyswllt Llangefni yn uwch na'r grant a gafwyd oherwydd bod Cyngor Sir Ynys Môn wedi darparu rhywfaint o arian cyfatebol tuag at y cynlluniau hyn.

**4.1.4** Gwariwyd gweddill y grant Lleoedd Llewyrchus Llawn Addewid trwy refeniw; felly, roedd yr Awdurdod wedi gwario'r cyfan o'r £2.050m yn 2014/15.

### 4.2 Derbyniadau Cyfalaf

**4.2.1** Mae'r derbyniadau cyfalaf y gellir ei ddefnyddio ar gyfer eleni hyd yma yn:-

| | **Derbyniwyd hyd at 31 Mawrth 2015 £'000** |
|---|---|
| CRT Tai | |
| Gwerthiannau Hawl i Brynu | 81 |
| Gwerthu Tir | 150 |
| Eraill | 5 |
| | |
| Tai Sector Preifat | 0 |
| Gwerthu plotiau | 79 |
| Taliadau a ad-dalwyd | 12 |
| Grantiau a ad-dalwyd | |
| | |
| Cronfa'r Cyngor: | |
| Mân-ddaliadau | 1,481 |
| Cyffredinol | 430 |
| Diwydiannol | 63 |
| Ysgolion | 126 |
| | |
| **Cyfanswm** | **2,427** |

**4.2.2** Roedd y derbyniadau cyfalaf y gellir ei ddefnyddio ar gyfer 2014/15 yn £2.4m (£0.9m yn 2013/14)**.**

## 5. CYLLIDO

**5.1** Gweler yn y tabl isod crynodeb o gyllideb y Rhaglen Gyfalaf ar gyfer 2014/15:-

| | **Cronfa Cyffredinol £'000** | **CRT £'000** | **Cyfanswm £'000** |
|---|---|---|---|
| Gwariant Cyfalaf | **15,768,907** | **5,518,692** | **21,287,599** |
| Grantiau Cyfalaf a Chyfraniadau | 8,682,712 | 2,650,000 | **11,332,712** |
| Cyfraniad Refeniw | 230,011 | 2,632,648 | **2,862,659** |
| Derbyniadau Cyfalaf | 2,191,339 | 236,044 | **2,427,383** |
| Benthyciadau gyda chefnogaeth | 2,398,655 | 0 | **2,398,655** |
| Benthyciadau Digefnogaeth | 2,266,190 | 0 | **2,266,190** |

## 6. NEWIDIADAU ELENI

**6.1** Mae'r cronfeydd wrth gefn nad ydynt wedi eu dyrannu fel a ganlyn:-

| | **D/ymlaen 2013/14 £'000** | **Cyllideb 2014/15 £'000** | **Dyrannwyd 2014/15 £'000** | **Addasiadau 2014/15** | **Cyfanswm ar gael 2014/15 £'000** |
|---|---|---|---|---|---|
| Cyllid Cyfatebol/Adfywio | **200** | Dim | Dim | Dim | 200 |
| Cronfa wrth gefn ar gyfer Gwelliannau Hamdden | **196** | Dim | Dim | (23) | 173 |
| Rhesymoli Asedau | **2,100** | Dim | Dim | Dim | 2,100 |
| Heb eu dyrannu | **340** | Dim | Dim | Dim | 340 |
| Astudiaethau Dichonoldeb | **460** | Dim | Dim | Dim | 460 |
| Gwario i Arbed | **Dim** | 850 | Dim | Dim | 850 |
| Benthyciadau Digefnogaeth* | **Dim** | 1,000 | Dim | Dim | 1,000 |

** Nid yw'r elfen o'r arian wrth gefn ar gyfer benthyciadau digefnogaeth nad ydyw wedi ei defnyddio'n cael ei chario drosodd i'r flwyddyn ddilynol. .*

**6.1.1** Os daw'n amlwg na fyddir yn derbyn y derbyniadau cyfalaf y cyllidebwyd ar ei gyfer, neu os bydd pwysau eraill ar y gyllideb, efallai y bydd angen gwneud llai o ddefnydd o gronfeydd wrth gefn sydd heb eu dyrannu. Bydd angen adolygu hyn wrth ystyried unrhyw ymrwymiadau i'r dyfodol o'r cronfeydd wrth gefn hyn.

## 7. EDRYCH YMLAEN

**7.1** Mae'r Rhaglen Gyfalaf ar gyfer 2015/16 wedi ei chymeradwyo gan y Cyngor Llawn ar 26 Chwefror 2015. Roedd y gyllideb a gymeradwywyd ar gyfer y flwyddyn ariannol hon yn £14.9m, gyda £3.8m yn llithro o 2014/15 fel y gellir gweld yn Atodiad CH. Gallai'r Gyllideb Gyfalaf ar gyfer 2015/16 dyfu eto yn sgil unrhyw grantiau newydd a dderbynnir yn ystod y flwyddyn.

# Cyllideb Gyfalaf 2014/15 : Mawrth 2015

| Prosiectau | Cyllideb 2014/15 £'000 | Llithriad 2013/14 £'000 | Cyfanswm £'000 | Gwariant £'000 | Gwariant % | Sylwadau |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Tai** | **6,634** | **2,365** | **8,999** | **7,220** | **80** | |
| Cyfrif Refeniw Tai (CRT) | 5,734 | 1,351 | 7,085 | 5,519 | 78 | Mae’r rhan fwyaf o’r tanwariant cyfalaf o £1.5m yn ymwneud â chynlluniau sydd wedi cael eu caffael ond nad ydynt wedi eu cwblhau. Mae’r Gwasanaethau Tai’n cadarnhau y bydd cynlluniau a gawsant eu caffael yn ystod 2014/15 yn cael eu cwblhau yn ystod chwarter cyntaf y flwyddyn ariannol gyfredol. |
| Cronfa Dai Gyffredinol | 900 | 1,014 | 1,914 | 1,701 | 89 | Roedd y rhan fwyaf o’r grantiau a’r benthyciadau wedi cael eu gwario erbyn diwedd y flwyddyn a gellir priodoli’r tanwariant i broses arferol grantiau sy’n golygu y gall yr ymgeisydd, yn unol â’r ddeddfwriaeth, gymryd hyd at 12 mis i gwblhau’r gwaith wedi i’r grant gael ei gymeradwyo. |
| **Addysg** | **1,554** | **1,049** | **2,603** | **2,175** | **84** | |
| Arian Wrth Gefn ar gyfer Ysgolion yr 21ain Ganrif | 0 | 850 | 850 | 466 | 55 | Dyma’r ddwy ysgol 21ain ganrif newydd yng Nghaergybi a’r Llannau ac mae’r gwaith yn cynnwys Gwasanaethau Cychwynnol a Dylunio, gwaith Adeiladu a ffioedd. Mae ffi gadw o £64k ar gyfer cwblhau Canolfan y Bont hefyd wedi’i chynnwys yma. |
| Rhaglen Ymestyn Cyfalaf Dechrau’n Deg | 415 | 0 | 415 | 415 | 100 | Cafodd y cyfan o’r Grant Cyfalaf ar gyfer Dechrau’n Deg ei wario yn y flwyddyn a bydd y cynllun yn parhau yn 2015/16 a byddir yn derbyn grant pellach o £0.447m. |
| Addysg: Arall | 1,000 | 199 | 1,199 | 1,169 | 97 | Mae hyn yn ymwneud â mân-waith mewn gwahanol ysgolion, megis gosod bwyleri newydd, gwaith toi a risg tân. I bob pwrpas, roedd y gyllideb wedi ei gwario’n llawn erbyn diwedd y flwyddyn. |
| Addysg: Grant Datblygu Canolfannau Iaith Ynys Môn | 139 | 0 | 139 | 125 | 90 | Derbyniwyd y grant hwn ym mis Hydref 2014, gyda’r gofyniad bod yr holl waith a’r pryniannau’n cael eu cwblhau a’r biliau’n cael eu prosesu yn ystod y flwyddyn ariannol. Roedd hon yn gryn her o ystyried fod rhan o’r cyllid ar gyfer gwaith adeiladu. O’r herwydd, adeiladwyd 10% o arian wrth gefn i mewn i’r gwariant hwn a rhoddwyd gwybod i swyddogion LlC am hynny ac fe gymeradwywyd hynny ganddynt. Pwrpas hyn oedd sicrhau na fyddai unrhyw orwariant ar ddyfynbrisiau ar gyfer gwaith ac ati yn llesteirio prosiectau yn yr ysgolion, sef Ysgol Uwchradd Bodedern, Ysgol Moelfre ac Ysgol Llanfawr gyda’r posibilrwydd na fyddai modd cwrdd â’r amod i gwblhau’r holl brosesau yn ystod y flwyddyn ariannol. Yn wir, gofynnodd LlC am y wybodaeth berthnasol ynghylch gwariant mewn perthynas â’r grant yn fuan. Roedd yn ffodus, felly, fod yr holl brosiectau wedi cael eu rheoli mewn modd a oedd yn golygu fod yr arian wedi cael ei wario mewn modd amserol. Mae modd cyfrif am y cyfan bron o’r gwahaniaeth rhwng y swm a wariwyd a’r grant a oedd ar gael oherwydd y swm wrth gefn o 10% y sonnir amdano uchod. Heb hwnnw, ni fyddai’r swyddogion wedi medru symud ymlaen i weithredu’r prosiectau o fewn amserlenni mor gaeth gyda’r un hyder yn eu gallu i gyflawni yn unol ag amodau’r grant. Gallai methiant yn hyn o beth fod wedi golygu y byddai’r Cyngor efallai wedi bod yn atebol am ran o’r gwariant ac am fwy na’r arian wrth gefn o 10% a roddwyd o’r neilltu yn yr achos hwn. |
| **Adfywio** | **4,491** | **2,092** | **6,583** | **6,507** | 99 | |
| Dat Econ: Isadeiledd Strategol - Safleoedd ac Eiddo | 1,666 | 215 | 1,881 | 1,434 | 76 | Cychwynnwyd dymchwel Hyfforddiant Môn yn Chwarter 4, a disgwylir y bydd y gwaith wedi’i gwblhau yn ystod Chwarter 1 2015/16. |
| Dat Econ: Arall | 650 | 707 | 1,357 | 872 | 64 | Mae hyn yn ymwneud â darparu cyllid cyfatebol ar gyfer Cynllun Cyfenter, Grantiau’r Gronfa Fuddsoddi Leol, Cynlluniau i ymestyn Canolfan Fusnes Ynys Môn, Prosiect Amgylchedd Arfordirol Ynys Môn a Thoiledau Cyhoeddus. |
| Eiddo: Rhaglen i Wella’r Mân-ddaliadau | 250 | 0 | 250 | 843 | 337 | Mae’r rhaglen gwella’r mân-ddaliadau sy’n cael ei chyllido o’r derbyniadau cyfalaf a neilltuwyd o werthu’r mân-ddaliadau ac incwm o’r rhenti, yn ei phumed blwyddyn. Mae’r rhaglen yn parhau i redeg o flaen derbyniadau cyfalaf gyda diffyg o £2.051m yn cael ei ddwyn ymlaen o 2013/14. Roedd £1.501m dderbyniadau cyfalaf wedi dod i law erbyn diwedd y flwyddyn a rhagwelir y bydd mwy o werthiannau yn 2015/16 a 2016/17. Mae £1.393m o ddiffyg yn cael ei gario drosodd i 2015/16 ar gyfer rhaglen gwella’r mân-ddaliadau. |
| Rheoli Gwastraff:Compownd ar gyfer Cynwysyddion ym Mona | 125 | 0 | 125 | 7 | 6 | Roedd y cynllun gwariant gwreiddiol ar gyfer y safle ym Mhenhesgyn. Fodd bynnag, tybir bellach nad yw’r safle hwn yn addas ac, o’r herwydd, bwriedir gwario’r arian ar y Compownd Storio Cynwysyddion Gwastraff ym Mona, a fyddai’n cael ei ddefnyddio’n lle’r safle presennol ym Mryn Sunsur. Bydd y gwaith yn llithro i 2015/16 a bydd angen gwahodd tendrau i benodi Contractwr ar gyfer y prosiect a fydd efallai’n cychwyn ym mis Medi/Hydref 2015 ac yn parhau am 7/8 mis. Talwyd arian cadw yn ystod y chwarter ar gyfer gwaith 2013/14 a bydd hwnnw’n cael ei gyllido drwy’r arian wrth gefn. |
| Rheoli Gwastraff: Arall | 0 | 0 | 0 | 32 | 0 | |
| Adfywio Ffisegol (3 Tref) | 0 | 1,170 | 1,170 | 1,515 | 129 | Bydd y gyllideb yn cael ei gwario ar brosiectau ac eiddo o fewn Menter Treftadaeth Treflun Caergybi. |
| Priffyrdd: Menter Benthyca Llywodraeth Leol 2014/16 | 1,800 | 0 | 1,800 | 1,804 | 100 | Cychwynnodd y Fenter Benthyca Llywodraeth Leol yn 2012/13 a daw i ben yn 2014/15. Cafodd y cyfan o gyllideb eleni ei gwario ar wella Cerbydlonydd, Troedffyrdd a Draenio ar yr ynys. |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Arall** | **5,428** | **1,394** | **6,822** | **5,385** | **79** | |
| Priffyrdd: Arall | 1,911 | 386 | 2,297 | 1,928 | 85 | Mae’r gyllideb hon yn ymwneud â cherbydau, strwythurau, cerbydlonydd, meysydd parcio, goleuadau stryd, Ffordd Gyswllt Llangefni a Lliniaru Llifogydd ym Miwmares. Roedd y rhan fwyaf o’r tanwariant i’w briodoli i’r rhaglen adnewyddu cerbydau a fydd yn cario drosodd i 2015/16. |
| Eiddo: Arall | 770 | 432 | 1,202 | 786 | 65 | Mae’r swm cyfan yn ymwneud â gwaith ar sicrhau mynediad i’r anabl a rheoli risg mewn adeiladau, Doc Pysgod Caergybi ac estyniadau i ddwy fynwent, y naill yn Llanddona a’r llall yn Llanbedrgoch. Yr unig gynllun lle gwariwyd y swm cyfan oedd mynediad i’r anabl a bydd y cynlluniau eraill yn cael eu cario drosodd ar gyfer eu cwblhau yn 2015/16. |
| TGCh: Strategaeth | 150 | 456 | 606 | 209 | 34 | Gwariwyd yn llawn ar rai prosiectau yn y Rhaglen TGCh yn ystod y flwyddyn, megis Uwchraddio Windows XP i Windows 7. Roedd rhai cynlluniau, megis Gwasanaeth TGCh Wrth Gefn, yn anghyflawn a byddant yn cario drosodd i 2015/16. |
| Gwasanaethau Cymdeithasol: Arall | 377 | 120 | 497 | 493 | 99 | Roedd rhywfaint o’r gwariant yma’n gysylltiedig ag atgyweirio Cartref Gofal Brwynog. Gwariwyd y gweddill o’r gyllideb ar grant y Gronfa Gofal Canolraddol, lle cafodd 99% o’r grant ei wario ar eitemau megis prynu gliniaduron a phrynu offer arbenigol, megis gwelyau proffilio. |
| Hamdden: Arall | 170 | 0 | 170 | 2 | 0 | Roedd y gwariant yn gysylltiedig â gwaith yng Nghanolfan Hamdden Amlwch. Roedd y gyllideb nad oedd wedi ei defnyddio yn ymwneud ag uwchraddio Canolfannau Hamdden Amlwch a Phlas Arthur a fydd yn cario drosodd i 2015/16 ac yn cael ei gwblhau erbyn diwedd yr ail chwarter, fan bellaf. |
| Lleoedd Llewyrchus Llawn Addewid | 2,050 | 0 | 2,050 | 1,967 | 96 | Cafodd y grant Lleoedd Llewyrchus Llawn Addewid ei wario’n llawn yn ystod y flwyddyn ac roedd 96% o’r grant yn ymwneud â chyfalaf. |
| **Cyfanswm** | **18,107** | **6,900** | **25,007** | **21,287** | **85** | |

**ATODIAD C**

| Llithriad 2013/14 £'000 | Cyllideb 2014/15 £'000 | GWASANAETH | Manylion am y Gwariant Cyfalaf a Gynlluniwyd | Cyllideb ('000) | Cyllid Allanol (grantiau a chyfraniadau penodol) ('000) | Y gost i CSYM ('000) |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | **Tai** | | | | |
| | | **Tai'r Sector Cyhoeddus:** | | | | |
| 1,351 | **5,734** | Rhaglen Gyfalaf y Cyfrif Refeniw Tai | Gwaith Cynnal a Gynlluniwyd ar Dai Cyngor | 5,350 | 2,600 | 2,750 |
| | | | Gwaith SATC a Gynlluniwyd ar gyfer 2014-15 – Arian wrth Gefn heb ei ddyrannu | 400 | | 400 |
| | | | Newid Tenantiaeth SATC 2014-15 – Arian wrth Gefn heb ei ddyrannu | 350 | | 350 |
| | | | Gwaith Amgylcheddol 2014-15 - Arian wrth Gefn heb ei ddyrannu | 250 | | 250 |
| | | | Adolygiad Tai Gwarchod – Arian wrth Gefn heb ei ddyrannu | 735 | | 735 |
| | | **Cynlluniau Tai'r Sector Preifat:** | | | | |
| 621 | **900** | Cynlluniau Grantiau a Benthyciadau Tai Sector Preifat | Grantiau Effeithlonrwydd Ynni – rhaglen 14-15 | 171 | | 171 |
| | | | Grantiau i Brynwyr Tro Cyntaf – rhaglen 14-15 | 314 | | 314 |
| | | | Grantiau Cyfleusterau i'r Anabl – rhaglen 14-15 | 851 | | 851 |
| | | | Grantiau Gwaith Trwsio Brys | 21 | | 21 |
| | | | Grantiau/Benthyciadau ar gyfer Tai Gwag | 140 | | 140 |
| | | | Grant Diogelwch Tân | 24 | | 24 |
| 393 | | Cynlluniau Tai Fforddiadwy | Dim gwybodaeth bellach | 393 | | 393 |
| **2,365** | **6,634** | **Cyfanswm Tai** | | **8,999** | **2,600** | **6,399** |
| | | | | | | |
| | | **Addysg** | | | | |
| | **415** | Rhaglen Ymestyn Cyfalaf Dechrau'n Deg | Addasu'r Adeilad Dechrau'n Deg, Caergybi | 415 | 415 | |
| 850 | | Arian Wrth Gefn Ysgolion yr 21ain Ganrif | Costau Cyfalaf a Ffioedd Dylunio Ysgol y Llannau. Cynllunio ar gyfer yr ysgol newydd yng Nghaergybi | 61 | | 61 |
| | | | Arian wrth Gefn | 789 | | 789 |
| 199 | **1,000** | Ysgolion – Gwaith Atgyweirio | Ysgol Syr Thomas Jones - Atgyweirio'r Toiledau | 100 | | 100 |
| | | | Ysgol Uwchradd Bodedern – Gosod Bwyler Newydd a gwneud Gwaith ar y To | 525 | | 525 |
| | | | Ysgol Gyfun Llangefni – Gwaith ar faes parcio'r ysgol, ailweirio, system Drysau a'r ystem Larwm Tân | 110 | | 110 |
| | | | Ysgol David Hughes - Risg Tân | 50 | | 50 |
| | | | Ysgol Uwchradd Caergybi – Bloc Gwyddoniaeth, To, Bwyler | 200 | | 200 |
| | | | Ysgol Gynradd Y Borth - Toiledau | 30 | | 30 |
| | | | Ysgolion – Risg Legionella | 50 | | 50 |
| | | | Ysgolion Gynradd – Ailweirio a Goleuadau | 50 | | 50 |
| | | | Ysgolion Gynradd – Larymau Tân | 30 | | 30 |
| | | | Ysgolion Gynradd – Bwyleri | 30 | | 30 |
| | | | Cyllideb heb ei dyrannu | 24 | | 24 |
| 0 | **139** | Datblygu Canolfannau Iaith Ynys Môn | Uwchraddio Canolfan Iaith Cynradd Moelfre, uwchraddio Canolfan Iaith Cynradd Llanfawr a sefydlu Canolfan Iaith Uwchradd Bodedern | 139 | 139 | |
| **1,049** | **1,554** | **Is-gyfanswm** | | **2,603** | **554** | **2,049** |
| | | **Hamdden** | | | | |
| **0** | **170** | Ymestyn Canolfannau Hamdden | Uwchraddio Canolfannau Hamdden Amlwch a Phlas Arthur | **170** | **0** | **170** |

| Llithriad 2013/14 £'000 | Cyllideb 2014/15 £'000 | GWASANAETH | Manylion am y Gwariant Cyfalaf a Gynlluniwyd | Cyllideb ('000) | Cyllid Allanol (grantiau a chyfraniadau penodol) ('000) | Y gost i CSYM ('000) |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | **Datblygiad Economaidd** | | | | |
| 215 | **1,666** | Isadeiledd Strategol ar Ynys Môn – Safleoedd ac Eiddo | 7 o unedau newydd ar safle Penyrorsedd a dymchwel adeilad Hyfforddiant Môn | 1,881 | 1,500 | 381 |
| 277 | | Cyllid Cyfatebol i Gynllun Cyfenter | Mae'r cynllun hwn yn cael ei redeg gan Menter Môn ac mae'r Cyngor yn cyfrannu at y grantiau a roddir i fentrau economaidd cymunedol y trydydd sector | 277 | | 277 |
| | **130** | Grantiau'r Gronfa Fuddsoddi Leol | Mae'r Cyngor yn rhoi grantiau i fusnesau lleol | 130 | 100 | 30 |
| | **25** | Cynlluniau i Ymestyn Canolfan Fusnes Ynys Môn | Cynlluniau yn 2007 i ymestyn y ganolfan. Uwchraddio ac adolygu'r cynlluniau hyn fel y gellir cyflwyno cais cynllunio i ymestyn y Ganolfan Funes | 25 | | 25 |
| | **495** | Prosiect Amgylchedd Arfordirol Ynys Môn | Porth Dafarth, Ynys Cybi | 125 | 125 | |
| | | | Pontŵns yr Orsaf Cychod Hwylio, Porthaethwy | 57 | 57 | |
| | | | Ffordd y Traeth, Rhosneigr | 107 | 107 | |
| | | | Llithrfa, Trearddur | 57 | 57 | |
| | | | Golygfan yr Harbwr, Cemaes | 57 | 57 | |
| | | | Traeth Mynediad i Bawb, Cemaes | 92 | 22 | 70 |
| 430 | | Arall | Mae hyn yn cynnwys cyllidebau ar gyfer Astudiaethau Dichonoldeb Cyfalaf a Chyllid Partneriaeth | 430 | | 430 |
| **922** | **2,316** | **Is-gyfanswm** | | **3,238** | **2,025** | **1,213** |
| | | **Eiddo** | | | | |
| | **250** | Mân-ddaliadau (Cyllid wedi ei neilltuo'n benodol) | Dim rhaglen ar gyfer Mân-ddaliadau | 250 | | 250 |
| 2 | **200** | Mynediad i'r Anabl i Adeiladau Cyhoeddus | Ysgol Syr Thomas Jones – Mynediad i'r Anabl | 5 | | 5 |
| | | | Ysgol Gyfun, Llangefni – Mynediad i'r Anabl | 40 | | 40 |
| | | | Ysgol Uwchradd Caergybi – Gwaith ar gyfer yr Anabl | 30 | | 30 |
| | | | Ysgol Gynradd Y Fali - Gwaith ar gyfer yr Anabl | 10 | | 10 |
| | | | Ysgol Esceifiog - Gwaith ar gyfer yr Anabl | 30 | | 30 |
| | | | Ysgol Llanfechell - Gwaith ar gyfer yr Anabl | 15 | | 15 |
| | | | Arian DDA heb ei wario yn yr Ysgolion Uwchradd | 50 | | 50 |
| | | | Arian Wrth Gefn: Cyffredinol | 22 | | 22 |
| 143 | **450** | Rheoli Risg a Chynnal a Chadw Adeiladau | Ysgolion Cynradd – Risgiau Legionella – heb ei ddyrannu | 50 | | 50 |
| | | | Ysgolion Cynradd – LPG heb ei ddyrannau | 30 | | 30 |
| | | | Ysgolion Cynradd – Arian ar gyfer ceginau sydd heb ei ddyrannu | 50 | | 50 |
| | | | Amryfal – Cydymffurfio gyda ACOP Legionella | 50 | | 50 |
| | | | Last Trading Post – Ffenestr Newydd | 3 | | 3 |
| | | | Swyddfa Bost Brynsiencyn – To Fflat | 3 | | 3 |
| | | | Depo'r Cyngor – Cael Gwared ar Asbestos | 10 | | 10 |
| | | | Uned 2 Bodedern – addasu ffenestr yn ddrws | 2.5 | | 2.5 |
| | | | Hen Ysgol Genedlaethol – To | 15 | | 15 |
| | | | Hen Ysgol Genedlaethol – Wal Gynnal | 5 | | 5 |
| | | | Mynedfa Foel Fawr – Trac Mynediad | 4 | | 4 |
| | | | Pob eiddo – Risg Tân | 17 | | 17 |
| | | | Pob Eiddo – Bwyleri | 100 | | 100 |
| | | | Pob Eiddo – Rhaglen Ddiogelwch LPG | 50 | | 50 |
| | | | Arian Wrth Gefn : Cyffredinol | 203.5 | | 203.5 |
| (3) | **120** | Estyniad i Fynwent Llanddona | Ymestyn Mynwent Llanddona | 117 | | 117 |
| 110 | | Estyniad i Fynwent Llanbedrgoch | Ymestyn Mynwent Llanbedrgoch | 110 | | 110 |
| 130 | | Doc Pysgod Caergybi | Dim gwybodaeth bellach | 130 | | 130 |
| 10 | | Gwerthuso Opsiynau ar gyfer Rheoli Asedau | Dim gwybodaeth bellach | 10 | | 10 |
| 40 | | Caffi'r Wendon | Dim gwybodaeth bellach | 40 | | 40 |
| **432** | **1,020** | **Is-gyfanswm** | | **1,452** | | **1,452** |

| Llithriad 2013/14 £'000 | Cyllideb 2014/15 £'000 | Gwasanaeth | Manylion am y Gwariant Cyfalaf a Gynlluniwyd | Cyllideb ('000) | Cyllid Allanol (grantiau a chyfraniadau penodol) ('000) | Y gost i CSYM ('000) |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | **Gwastraff** | | | | |
| | 125 | Compownd Storio Cynwysyddion Gwastraff – Penhesgyn | Bydd yr arian yn cael ei ddefnyddio mewn cysylltiad â'r Compownd Storio Cynwysyddion Gwastraff ym Mona. Byddai'r compownd storio'n cael ei ddefnyddio'n lle'r safle presennol ym Mryn Sunsur. | 125 | | 125 |
| **0** | **125** | **Is-gyfanswm** | | **125** | | **125** |
| | | **Cynllunio** | | | | |
| 1,170 | | Adfywio Ffisegol (3 Tref) | Prosiectau ac Eiddo sy'n rhan o Fenter Treftadaeth Treflun Caergybi | 1,170 | 1,120 | 50 |
| **1,170** | **0** | **Is-gyfanswm** | | **1,170** | **1,120** | **50** |
| | | **Priffyrdd a Thrafnidiaeth** | | | | |
| | **1,800** | Menter Fenthyca Llywodraeth Cymru | Ailwynebu'r gerbydlon | 1,490 | | 1,490 |
| | | | Gwella draeniad | 170 | | 170 |
| | | | Ailadeiladu Troedffyrdd | 140 | | 140 |
| (28) | **200** | Cerbydlonydd | Pengorffwysfa i Laneilian | 72 | | 72 |
| | | | Pentref Tregele | 30 | | 30 |
| | | | | | | |
| | | | Ffordd Ravenspoint, Trearddur | 70 | | 70 |
| 59 | **50** | Meysydd Parcio | Dim rhaglen ar gyfer meysydd parcio | 109 | | 109 |
| 35 | **180** | Strwythurau | Aberffraw | 90 | | 90 |
| | | | Llanfairynghornwy | 90 | | 90 |
| | | | Dim gwybodaeth bellach | 35 | | 35 |
| (3) | **20** | Goleuadau Stryd | Edrych ar oed y lampau a gosod lampau newydd yn lle'r rhai nad ydynt yn effeithlon | 17 | | 17 |
| (3) | **50** | Ffyrdd a Throedffyrdd ar Stadau | Dim rhaglen ar gyfer Ffyrdd a Throedffyrdd ar Stadau | 47 | | 47 |
| 237 | **150** | Cerbydau | Prynu cerbydau ar gyfer y fflyd - ar fîn mynd allan i dendr | 387 | | 387 |
| 0 | **520** | Ffordd Gyswllt Llangefni | | 520 | 450 | 70 |
| | **185** | | | 185 | 185 | |
| | **90** | | | 90 | 90 | |
| 89 | **466** | Lliniaru Llifogydd Biwmares | Lleihau'r risg o lifogydd ym Miwmares | 555 | 479 | 76 |
| **386** | **3,711** | **Is-gyfanswm** | | **4,097** | **1,205** | **2,893** |
| | | **Corfforaethol** | | | | |
| 456 | **150** | Strategaeth TGCh | System TGCh Wrth Gefn | 150 | | 150 |
| | | | Uwchraddio Windows XP i Windows 7 | 37 | | 37 |
| | | | Microsoft Exchange | 75 | | 75 |
| | | | 3Comm Refresh | 50 | | 50 |
| | | | Ffeibr PSBA i ysgolion | 50 | | 50 |
| | | | Cost ychwanegol y systemau wrth gefn | 20 | | 20 |
| | | | Adnewydd serfwyr 2003 | 100 | | 100 |
| | | | Costau Trwyddedu Microsoft ac Oracle | 30 | | 30 |
| | | | Costau ychwanegol adnewyddu XP | 20 | | 20 |
| | | | Serfwyr newydd | 15 | | 15 |
| | | | Arian Wrth Gefn TGCh | 59 | | 59 |
| **456** | **150** | **Is-gyfanswm** | | **606** | | **606** |

| Llithriad 2013/14 £'000 | Cyllideb 2014/15 £'000 | GWASANAETH | Manylion am y Gwariant Cyfalaf a Gynlluniwyd | Cyllideb ('000) | Cyllid Allanol (grantiau a chyfraniadau penodol) ('000) | Y gost i CSYM ('000) |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | **Gwasanaethau Cymdeithasol** | | | | |
| **120** | | Brwynog | Atgyweirio Cartref Gofal Brwynog | 120 | | 120 |
| | **377** | Cronfa Gofal Canolraddol | Gwasanaeth cymorth Iechyd a Gofal Cymdeithasol 24/7 | 5 | 5 | |
| | | | Ymsefydlu swyddogaeth fferyllfa gofal canolraddol fel rhan o ofal sylfaenol | 5 | 5 | |
| | | | Darparu Offer a Gwaith Addasu | 90 | 90 | |
| | | | Offer Teleofal | 30 | 30 | |
| | | | Gweithio Symudol a Gweithio'n Gallach | 97 | 97 | |
| | | | Offer Arbenigol | 50 | 50 | |
| | | | Cydleoli Staff MDT | 20 | 20 | |
| | | | Hybiau Cymunedol | 80 | 80 | |
| **120** | **377** | **Is-gyfanswm** | | **497** | **377** | **120** |
| **0** | **2,050** | Lleoedd Llewyrchus Llawn Addewid | Galluogi Cartrefi Newydd | 485 | 485 | 0 |
| | | | Cartrefi yn y Dref | 225 | 225 | 0 |
| | | | Canol Tref Lewyrchus | 385 | 385 | 0 |
| | | | Neuadd y Farchnad | 10 | 10 | 0 |
| | | | Swyddi a Busnesau | 190 | 190 | 0 |
| | | | Cymuned Fywiog | 635 | 635 | 0 |
| | | | Darparu mewn modd cynaliadwy | 120 | 120 | 0 |
| **0** | **2,050** | **Is-gyfanswm** | | **2,050** | **2,050** | **0** |
| **4,535** | **11,473** | **Cyfanswm – Cyffredinol** | | **16,008** | **7,331** | **8,677** |
| **6,900** | **18,107** | **CYFANSWM Y GYLLIDEB** | | **25,007** | **9,931** | **15,076** |

**ATODIAD CH**

| Prosiectau Cyfalaf | Cyllideb ar gyfer 2014/15 £'000 | Gwariant yn ystod y Flwyddyn £'000 | Tanwariant £'000 | Llithriad y gofynnwyd amdano £'000 |
|---|---|---|---|---|
| Cyfrif Refeniw Tai | 7,085 | 5,519 | 1,566 | 1,300 |
| Tai Fforddiadwy | 393 | 88 | 305 | 305 |
| Atgyweirio Ysgolion | 1,199 | 1,169 | 30 | 30 |
| Uwchraddio Canolfan Hamdden Plas Arthur | 85 | 0 | 85 | 85 |
| Uwchraddio Canolfan Hamdden Amlwch | 85 | 0 | 85 | 85 |
| Isadeiledd Strategol – Safleoedd ac Eiddo | 1,881 | 1,434 | 447 | 447 |
| Arfordir Ynys Môn | 495 | 251 | 244 | 244 |
| Rheoli Risg Adeiladu | 593 | 470 | 123 | 123 |
| Doc Pysgod Caergybi | 130 | 34 | 96 | 96 |
| Mynwent Llanbedrgoch | 110 | 4 | 106 | 106 |
| Mynwent Llanddona | 117 | 5 | 112 | 112 |
| Rheoli Gwastraff: Compownd Cynwysyddion | 125 | 6 | 119 | 119 |
| Cerbydau | 387 | 0 | 387 | 387 |
| Meysydd Parcio | 109 | 64 | 45 | 45 |
| TGCh – Gwahanol Gynlluniau | 606 | 209 | 396 | 396 |
| Cyfanswm | | | | 3,880 |

| CYNGOR SIR YNYS MÔN | |
|---|---|
| **ADRODDIAD I:** | **PWYLLGOR SGRIWTINI** |
| **DYDDIAD:** | **15 MEHEFIN 2015** |
| **PWNC:** | **MONITRO'R GYLLIDEB REFENIW, CANLYNIADAU DROS DRO 2014/15** |
| **AELOD(AU) PORTFFOLIO:** | **Y CYNGHORYDD H E JONES** |
| **PENNAETH GWASANAETH:** | **RICHARD MICKLEWRIGHT / BETHAN HUGHES OWEN** |
| **AWDUR YR ADRODDIAD:**<br>RHIF FFÔN:<br>E-BOST: | **BEN DAVIES**<br>02148 752510<br>BenDavies@ynysmon.gov.uk |
| **AELODAU LLEOL:** | **d/b** |

## A - Argymhelliad/Argymhellion a Rheswm/Rhesymau

**1.** Ym mis Chwefror 2014, gosododd y Cyngor gyllideb net ar gyfer 2014/15 gyda gwariant gwasanaethau net o £126.7m i gael ei gyllido o incwm o'r dreth gyngor a grantiau cyffredinol.

**2.** Roedd angen arbedion o £6.3m ar gyfer y gyllideb am 2014/15. Mae'r rhain wedi cael eu hymgorffori yng nghyllidebau unigol y gwasanaethau a chaiff llwyddiant neu fethiant i'w cyflawni eu hadlewyrchu yn y tanwariant/gorwariant a ddangosir.

**3.** Mae'r adroddiad hwn yn nodi perfformiad ariannol dros dro gwasanaethau'r Cyngor am y flwyddyn gyfan, gan nodi'r sefyllfa gyffredinol a ffynonellau'r prif wahaniaethau.

**4.** Y sefyllfa ariannol gyffredinol a ragamcenir ar gyfer 2014/15 yw tanwariant o £599k ac mae eglurhad am unrhyw wahaniaethau arwyddocaol wedi eu cynnwys yn yr adroddiad. Dylid nodi fod y gwaith yn parhau o ran Budd-daliadau a Ganiatwyd a Chyllid Corfforaethol ac, o'r herwydd, mae'r cyllidebau hyn wedi cael eu cynnwys yn yr adroddiad hwn gydag amrywiad o 'ddim'; adroddir ar lafar i'r pwyllgorau perthnasol os bydd unrhyw amrywiadau sylweddol yn y meysydd hyn.

**5.** Pwysleisir y bydd y ffigyrau hyn yn parhau i fod yn rhai dros dro hyd oni fydd yr archwiliad o'r Datganiad Cyfrifon wedi'i gwblhau. Cyflwynir y Datganiad Cyfrifon i'w archwilio erbyn diwedd Mehefin a disgwylir y bydd yr archwiliad wedi'i gwblhau ym mis Medi hwn; adroddir ar y canlyniadau terfynol ar y cyfle cyntaf ar ôl hynny.

**6.** Argymhellir y dylid nodi'r isod:-

**(i)** y sefyllfa a nodir yng nghyswllt y perfformiad ariannol am 2014/15;
**(ii)** bod y canlyniadau yr adroddir arnynt yn yr adroddiad hwn yn parhau i fod yn rhai dros dro hyd oni fydd yr archwiliad statudol wedi'i gwblhau.

## B - Pa opsiynau eraill wnaethoch chi eu hystyried a beth oedd eich rhesymau dros eu gwrthod ac/neu ddewis yr opsiwn hwn?

d/b

## C - Am ba reswm y mae hwn yn benderfyniad i'r Pwyllgor Gwaith?

Mae'r mater wedi'i ddirprwyo i'r Pwyllgor Gwaith.

| CH - | A yw'r penderfyniad hwn yn gyson â'r polisi a gymeradwywyd gan y Cyngor llawn? | |
|---|---|---|
| | Ydyw | |
| **D -** | **A yw'r penderfyniad hwn o fewn y gyllideb a gymeradwywyd gan y Cyngor?** | |
| | Ydyw | |
| **DD -** | **Gyda phwy wnaethoch chi ymgynghori?** | **Beth oedd eu sylwadau?** |
| 1 | **Prif Weithredwr / Uwch Dim Arweinyddiaeth (UDA)** (mandadol) | I'w gadarnhau |
| 2 | **Cyllid / Adran 151** (mandadol) | d/b – Swyddog Adran 151 yw awdur yr adroddiad hwn |
| 3 | **Cyfreithiol / Swyddog Monitro** (mandadol) | I'w gadarnhau |
| 4 | **Adnoddau Dynol (AD)** | |
| 5 | **Eiddo** | |
| 6 | **Technoleg Gwybodaeth Cyfathrebu (TGCh)** | |
| 7 | **Sgriwtini** | |
| 8 | **Aelodau Lleol** | |
| 9 | **Unrhyw gyrff allanol / arall/eraill** | |
| **E -** | **Risgiau ac unrhyw gamau lliniaru (os yn berthnasol)** | |
| 1 | **Economaidd** | |
| 2 | **Gwrthdlodi** | |
| 3 | **Trosedd ac Anhrefn** | |
| 4 | **Amgylcheddol** | |
| 5 | **Cydraddoldebau** | |
| 6 | **Cytundebau Canlyniad** | |
| 7 | **Arall** | |
| **F -** | **Atodiadau:** | |
| | Atodiad A – Adroddiad Monitro'r Gyllideb Refeniw – Canlyniadau Dros Dro 2014/15 | |
| **FF -** | **Papurau Cefndir (cysylltwch os gwelwch yn dda gydag awdur yr Adroddiad am unrhyw wybodaeth bellach):** | |

- Cyllideb Refeniw 2014/15 (fel y cafodd ei hargymell gan y Pwyllgor hwn ar 10 Chwefror 2014 a'i mabwysiadu gan y Cyngor Sir yn Chwefror 2014);
- Adroddiad Monitro'r Gyllideb Refeniw ar gyfer Chwarter 1 2014/15 (fel y cafodd ei gyflwyno i, a'i dderbyn gan, y Pwyllgor hwn ar 8 Medi 2014;
- Adroddiad Monitro'r Gyllideb Refeniw ar gyfer Chwarter 2 2014/15 (fel y cafodd ei gyflwyno i, a'i dderbyn gan, y Pwyllgor hwn ar 3 Tachwedd 2014); ac
- Adroddiad Monitro'r Gyllideb Refeniw ar gyfer Chwarter 3 2014/15 (fel y cafodd ei gyflwyno i, a'i dderbyn gan, y Pwyllgor hwn ar 16 Chwefror 2015.

**MONITRO'R GYLLIDEB REFENIW - CANLYNIADAU DROS DRO 2014/15**

## 1. Balans Cyffredinol - Sefyllfa Gychwynnol a Chyfraniad a Gynlluniwyd yn 2014/15

**1.1** Fel yr adroddwyd i'r Pwyllgor yma yn ei gyfarfod ar 30 Medi 2014, roedd y sefyllfa canlyniad terfynol am 2013/14 yn sylweddol well na'r disgwyl; felly roedd y balans cyffredinol ar ddechrau'r flwyddyn ariannol gyfredol yn £5.7m.

## 2. Y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2015 – Perfformiad Ariannol Fesul Gwasanaeth

**2.1** Mae manylion am berfformiad ariannol yn ôl gwasanaeth i'w gweld yn Anecs A (i hwyluso cymhariaeth, mae'r tabl cyfatebol ar gyfer adroddiad Chwarter 3 i'w weld yn Anecs B). Y rhagolwg cyffredinol yw y bydd tanwariant net o £599k.

## 3. Eglurhad o'r Amrywiadau sylweddol (diffinnir 'sylweddol' fel £100k neu fwy) – nodwch os gwelwch yn dda fod yr holl gyfeiriadau at amrywiadau a chanlyniadau yn amodol. Nid yw'r rhain ond yn cynnwys yr amrywiadau y gellir eu rheoli.

### 3.1 Dysgu Gydol Oes

#### 3.1.1 Addysg Ganolog

**3.1.1.1** Roedd tanwariant o £65k (2%) yn ystod y flwyddyn. Mae hwn yn ostyngiad o £50k (1% o gyllideb flynyddol y gwasanaeth) yn y tanwariant a ragamcanwyd yn Chwarter 3 (£115k, 2%). Y rhesymau am y tanwariant amodol yw:-

- Roedd gorwariant o £143k yng nghostau cludo disgyblion i ysgolion, colegau a sefydliadau addysgol eraill;
- Gorwariant o £100k ar integreiddio uwchradd, mae hon yn gyllideb sy'n cael ei harwain gan y galw am y gwasanaeth;
- Gorwariant o £126k gan Cynnal o ganlyniad i gostau na wnaed darpariaeth ar eu cyfer mewn perthynas â'r Cytundeb Lefel Gwasanaeth am wasanaethau megis cymorth TG, cymorth cwricwlwm a rheoli gweinyddiaeth. Mae trafodaethau'n mynd rhagddynt ar hyn o bryd i roi sylw i'r materion hyn yn 2015/16;
- Tanwariant o £218k (19%) yn y ddarpariaeth all-sirol; mae hon yn gyllideb sy'n cael ei harwain gan y galw am y gwasanaeth; a
- Roedd mân amrywiadau eraill a oedd yn cynrychioli gorwariant net o £216k.

#### 3.1.2 Diwylliant

**3.1.2.1** Gorwariodd y gwasanaeth hwn gan £103k (6%) yn ystod y flwyddyn. Mae hyn yn gynnydd o £25k (2% o gyllideb flynyddol y gwasanaeth) yn y gorwariant a ragamcanwyd yn Chwarter 3 (£78k, 4%). Dyma'r rhesymau am y tanwariant amodol hwn:-

- Gorwariant o £160k ar amgueddfeydd ac orielau oherwydd na fu modd cyflawni targedau incwm; rheswm o bwys oedd na fu modd i Oriel Ynys Môn (£158k y tu ôl i'r gyllideb) gwrdd â'r targedau incwm a oedd yn adlewyrchu disgwyliadau'n dilyn Arddangosfa Fenis yn 2013/14;
- Mân amrywiadau eraill yn arwain at danwariant net o £57k.

## 3.2 Cymunedau

### 3.2.1 Gofal Cymdeithasol

**3.2.1.1** Tanwariant o £370k (1%) yn y gwasanaeth yn ystod y flwyddyn. Mae hyn yn ostyngiad o £333k (1% o gyllideb flynyddol y gwasanaeth) yn y tanwariant rhagamcanedig yr adroddwyd arno yn Chwarter 3 (£703k, 2%).

**3.2.1.2** Fel y dywedwyd eisoes, mae'r galw am y gwasanaeth yn amrywio a gwnaed llawer o waith i wella'r rhagamcanion ynghyd ag ail-alinio cyllidebau rhwng Gofal Preswyl a Gofal Cartref i adlewyrchu'r galw.

**3.2.1.3** Mae'r canlyniadau dros dro yn dangos tanwariant is na'r swm a ragamcanwyd ac yr adroddwyd arno yn ystod y flwyddyn. Mae yn rhannol oherwydd galw cynyddol ar ddiwedd y flwyddyn am Ofal Preswyl ac Iechyd Meddwl ynghyd â newid i'r drefn gyfrifo er mwyn ail-alinio costau i'r cyfnodau cyfrifo yr oedd y gwasanaethau'n berthnasol iddynt. Mae'r rhesymau am y tanwariannau dros dro yn parhau i gynnwys arbedion ar gostau gweithwyr, gor-gyflawni incwm a gostyngiad yn y gwariant ar drwsio a chynnal a chadw a chyflenwadau a gwasanaethau.

### 3.2.2 Tai (Cronfa'r Cyngor)

**3.2.2.1** Tanwariant o £252k (15%) yn y gwasanaeth hwn yn ystod y flwyddyn. Mae hyn yn gynnydd o £179k (11% o gyllideb flynyddol y gwasanaeth) yn y tanwariant a ragamcanwyd ac yr adroddwyd arno yn Chwarter 3 (£73k, 4%).

**3.2.2.2** Mae'r eitemau a nodwyd fel rhai a oedd yn cyfrannu at y tanwariant ar gyfer y flwyddyn lawn, fel y manylwyd arnynt mewn adroddiad blaenorol, yn parhau i sefyll ac yn cynnwys:- swyddi gweigion, Diogelwch Cymunedol (oherwydd addasiad i'r incwm grant yn y flwyddyn flaenorol) a thanwariant yn yr adain Ddigartrefedd mewn perthynas â chostau Gwely a Brecwast a gafodd eu gwrthbwyso gan orwariant ar y Cynllun Prydlesu Sector Preifat.

### 3.2.3 Tai (CRT)

**3.2.3.1** Tanwariant o £864k yn y gwasanaeth hwn yn ystod y flwyddyn. Mae hyn yn gynnydd o £714k yn y tanwariant a ragamcanwyd ac yr adroddwyd arno yn Chwarter 3 (£150k). Y prif reswm am y canlyniad dros dro yw gwelliant o ran incwm (£900k) o ganlyniad i'r ffaith fod Llywodraeth Cymru wedi cynyddu rhenti uwchlaw'r gyllideb a gostyngiad yn y gwariant ar isgontractwyr yn yr Uned Cynnal Adeiladau.

## 3.3 Datblygiad Cynaliadwy

### 3.3.1 Datblygu Economaidd

**3.3.1.1** Tanwariant o £20k (1%) yn y gwasanaeth hwn yn ystod y flwyddyn. Mae hwn yn danwariant o £20k (1% o gyllideb flynyddol y gwasanaeth) yn yr amrywiad dros dro a ragamcanwyd ac yr adroddwyd arno yn Chwarter 3 (£0k); roedd y tanwariant blwyddyn lawn a'r amrywiad yn erbyn rhagamcan Chwarter 3 i'w briodoli i fân amrywiadau yn erbyn y gyllideb.

### 3.3.2 Hamdden

**3.3.2.1** Tanwariant o £15k (1%) yn y gwasanaeth hwn yn ystod y flwyddyn. Mae hyn yn symudiad o £130k (6% o gyllideb flynyddol y gwasanaeth) o'r gorwariant a ragamcanwyd ac yr adroddwyd arno yn Chwarter 3 (£115k, 5%). Dyma'r rhesymau am y tanwariant dros dro:-

- Roedd y cyllidebau ar gyfer y Parc a Chyfleusterau Awyr Agored yn ffurfio rhan o'r arbedion effeithlonrwydd a dderbyniwyd ar gyfer 2012/13 ond nid yw'r safleoedd i gyd wedi cael eu hallanoli, y gorwariant oedd £101k (£0 cyllideb);
- Roedd tanwariant o £171k yn y gyllideb ar gyfer chwaraeon a chyfleusterau hamdden dan do a hynny'n bennaf am fod y canolfannau hamdden wedi tanwario gan £166k a hynny i raddau helaeth ar eiddo (£96k) a bod incwm £84k ar y blaen i'r targed;
- Gorwariant o £66k yn y cwrs golff oherwydd na fu modd cwrdd â'r targedau incwm, problem sy'n dyddio'n ôl i'r 1990'au;
- Mân amrywiadau eraill yn arwain at danwariant net o £11k.

**3.3.2.2** Y rheswm mwyaf arwyddocaol am yr amrywiad o gymharu â'r rhagamcanion Chwarter 3 oedd perfformiad gwell y canolfannau hamdden o ganlyniad i gynnydd mewn incwm ac arbedion o ran gwariant, perfformiad £91k yn well na'r rhagamcanion.

### 3.3.3 Arforol

**3.3.3.1** Gorwariant o £29k (14%) yn y gwasanaeth yn ystod y flwyddyn. Dyma symudiad o £11k (5% o gyllideb flynyddol y gwasanaeth) o'r gorwariant a ragamcanwyd ac yr adroddwyd arno yn Chwarter 3 (£40k). Gellir priodoli'r gorwariant ar gyfer y flwyddyn lawn i nifer o fân amrywiadau.

### 3.3.4 Priffyrdd a Thrafnidiaeth

**3.3.4.1** Tanwariodd y gwasanaeth hwn gan £51k (1%) yn ystod y flwyddyn. Dyma symudiad o £151k (2% o gyllideb flynyddol y gwasanaeth) o'r gorwariant a ragamcanwyd ac yr adroddwyd arno yn Chwarter 3 (£100k, 1%). Gellir priodoli'r tanwariant ar gyfer y flwyddyn lawn i nifer o fân amrywiadau. Y prif reswm am yr amrywiad o gymharu â'r rhagamcan yn Chwarter 3 oedd incwm.

### 3.3.5 Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd

**3.3.5.1** Tanwariodd y gwasanaeth hwn gan £51k (2%) yn ystod y flwyddyn. Dyma symudiad o £212k (8% o gyllideb flynyddol y gwasanaeth) o'r gorwariant a ragamcanwyd ac yr adroddwyd arno yn Chwarter 3 (£161k, 6%). Gellir priodoli'r tanwariant ar gyfer y flwyddyn lawn i nifer o fân amrywiadau. Y prif reswm am yr amrywiad o gymharu â'r rhagamcan yn Chwarter 3 oedd incwm.

### 3.3.6 Eiddo

**3.3.6.1** Gorwariodd y gwasanaeth hwn gan £18k (2%) yn ystod y flwyddyn. Dyma symudiad o £20k (2% o gyllideb flynyddol y gwasanaeth) o'r gorwariant a ragamcanwyd ac yr adroddwyd arno yn Chwarter 3 (£38k, 8%). Gellir priodoli'r gorwariant ar gyfer y flwyddyn a'r amrywiad o gymharu â'r rhagamcan yn Chwarter 3 i nifer o fân amrywiadau yn erbyn cyllidebau a rhagamcanion.

### 3.3.7 Rheoli Gwastraff

**3.3.7.1** Tanwariodd y gwasanaeth hwn gan £127k (2%) yn ystod y flwyddyn. Dyma symudiad o £162k (2% o gyllideb flynyddol y gwasanaeth) o'r gorwariant a ragamcanwyd ac yr adroddwyd arno yn Chwarter 3 (£35k, <1%). Gellir priodoli'r tanwariant ar gyfer y flwyddyn a'r amrywiad o gymharu â'r rhagamcan yn Chwarter 3 i nifer o fân amrywiadau yn erbyn cyllidebau a rhagamcanion.

### 3.4 Dirprwy Brif Weithredwr

#### 3.4.1 Corfforaethol – Gwasanaethau Eraill

**3.4.1.1** Gorwariodd y gwasanaeth hwn gan £205k (14%) yn ystod y flwyddyn. Dyma gynnydd o £18k (1% o gyllideb flynyddol y gwasanaeth) yn y gorwariant a ragamcanwyd ac yr adroddwyd arno yn Chwarter 3 (£187k, 13%). Gellir priodoli'r gorwariant amodol ar orwariant o £176k yn y gyllideb 'arbedion i ddod o hyd iddynt' a symudiadau yn y cyfrif Ewro a mân amrywiadau eraill.

#### 3.4.2 Corfforaethol a Democrataidd

**3.4.2.1** Gorwariodd y gwasanaeth hwn gan £232k (12%) yn ystod y flwyddyn. Dyma symudiad o £315k (7% o gyllideb flynyddol y gwasanaeth) yn y tanwariant a ragamcanwyd ac yr adroddwyd arno yn Chwarter 3 (£83k, 4%). Mae'r rhesymau am y tanwariant amodol a'r amrywiad o gymharu â rhagamcan Chwarter 3 i'w priodoli i newidiadau a wnaed i'r fantolen yn ystod y chwarter diwethaf, gan gynnwys taliadau a derbyniadau ymlaen llaw o £275k a mân newidiadau eraill.

#### 3.4.3 Swyddfa'r Dirprwy Brif Weithredwr

**3.4.3.1** Tanwariant o £24k (2%) yn y gwasanaeth hwn yn ystod y flwyddyn. Dyma symudiad o £58k (6% o gyllideb flynyddol y gwasanaeth) o'r gorwariant a ragamcanwyd ac yr adroddwyd arno yn Chwarter 3 (£34k, 3%). Gellir priodoli'r tanwariant dros dro a'r amrywiad o gymharu â Chwarter 3 i fân amrywiadau yn erbyn cyllidebau a rhagamcanion.

#### 3.4.4 Cyllid – Heb gynnwys Budd-daliadau a ganiatawyd

**3.4.4.1** Gorwariodd y gwasanaeth hwn gan £733k (98%) yn ystod y flwyddyn. Mae hyn yn gynnydd o £16k (2% o gyllideb flynyddol y gwasanaeth) yn y gorwariant a ragamcanwyd ac yr adroddwyd arno yn Chwarter 3 (£717k, 83%).

**3.4.4.2** Dyma'r rhesymau am y gorwariant a ragamcenir:-

- Yn ystod y flwyddyn, bu angen Swyddog Adran 151 Dros Dro;
- Cyflogwyd staff asiantaeth i gynorthwyo gyda chau cyfrifon 2013/14. Nid yw'r rhan fwyaf o'r staff hyn bellach yn cael eu contractio; mae 3 aelod o staff asiantaeth yn parhau i gael eu contractio i lenwi i mewn ar gyfer swyddi gweigion ac i weithio ar brosiectau penodol sy'n cael eu cyllido ar wahân;
- Mae cyfanswm y gorwariant a ragamcenir ar gyfer y Swyddog Adran 151 a staff asiantaeth eraill yn £528k;
- Nid yw'r Grant ar gyfer Gweinyddu Budd-daliadau Tai bellach yn cael ei ddyrannu ar wahân (mae bellach yn rhan o'r Grant Cymorth Refeniw) ac, oherwydd na chafodd y cyllid ei ddyrannu yn ystod y broses o osod y gyllideb, bydd hyn yn gost ychwanegol o £111k;
- Mae llond llaw o fân amrywiadau eraill sydd, gyda'i gilydd, yn orwariant net o £94k.

#### 3.4.5 Adnoddau Dynol

**3.4.5.1** Tanwariodd y gwasanaeth hwn gan £124k (51%) yn ystod y flwyddyn. Mae hyn yn gynnydd o £124k (51% o gyllideb flynyddol y gwasanaeth) yn y rhagamcanion yn Chwarter 3 (£0). Gellir priodoli'r tanwariant dros dro a'r amrywiad o gymharu â Chwarter 3 i fân amrywiadau yn erbyn cyllidebau a rhagamcanion.

### 3.4.6 TGCh

**3.4.6.1** Tanwariodd y gwasanaeth gan £404k yn ystod y flwyddyn. Mae hyn yn gynnydd o £66k yn y tanwariant a ragamcanwyd yn Chwarter 3 (£338k). Mae'r rhesymau am y tanwariant dros dro fel a ganlyn:-

- Arbedion £286k ar staffio;
- Arbedion £122k ar gyflenwadau a gwasanaethau;
- Mae llond llaw o fân amrywiadau eraill sydd gyda'i gilydd yn danwariant net o £4k.

**3.4.6.2** Mae'r rhagamcan wedi gwella gan £66k ers adroddiad Chwarter 3 o ganlyniad i arbedion o £122k ar gyflenwadau a gwasanaethau a llond llaw o fân-amrywiadau i 'r rhagamcanion eraill.

### 3.4.7 Cyfreithiol a Phwyllgorau

**3.4.7.1** Tanwariodd y gwasanaeth gan £23k (21%) yn ystod y flwyddyn. Mae hyn yn gynnydd o £9k (8% o gyllideb flynyddol y gwasanaeth) yn y tanwariant a ragamcanwyd ac yr adroddwyd arno yn Chwarter 3 (£32k, 22%). Gellir priodoli'r tanwariant dros dro a'r amrywiad o gymharu â Chwarter 3 i fân amrywiadau yn erbyn cyllidebau a rhagamcanion.

### 3.4.8 Trawsnewid

**3.4.8.1** Tanwariodd y gwasanaeth gan £153k (20%) yn ystod y flwyddyn. Mae hyn yn gynnydd o £84k (11% o gyllideb flynyddol y gwasanaeth) yn y tanwariant a ragamcanwyd ac yr adroddwyd arno yn Chwarter 3 (£69k, 9%). Gellir priodoli'r tanwariant dros dro a'r amrywiad o gymharu â Chwarter 3 i fân amrywiadau yn erbyn cyllidebau a rhagamcanion.

### 3.4.9 Archwilio

**3.4.9.1** Gorwariodd y gwasanaeth gan £14k (108%) yn ystod y flwyddyn. Mae hyn yn gynnydd o £14k (108% o gyllideb flynyddol y gwasanaeth) yn y tanwariant yr adroddwyd arno yn Chwarter 3 (£0). Gellir priodoli'r tanwariant dros dro a'r amrywiad o gymharu â Chwarter 3 i fân amrywiadau yn erbyn cyllidebau a rhagamcanion.

### 3.4.10 Cyllid (Budd-daliadau a Ganiatawyd) a Chyllid Corfforaethol

**3.4.10.1** Roedd gwaith yn mynd rhagddo mewn perthynas ag elfennau o'r cyllidebau hyn ar adeg drafftio'r adroddiad hwn. Roedd arbedion a nodwyd, gan gynnwys llog a oedd yn daladwy ac a dderbyniwyd o £398k, cyfanswm o £758k, cymerwyd nad oedd unrhyw amrywiadau ar gyllidebau eraill; adroddir ar unrhyw amrywiadau sylweddol yn codi o'r cyllidebau hyn ar lafar i'r pwyllgorau perthnasol.

## 4. Amrywiadau nad oes modd eu rheoli

**4.1** Mae nifer o amrywiadau sy'n cael effaith ar y llinell waelod. Ceir manylion yn Anecs A am yr effaith hyn ar y llinell waelod. Yr eitemau mwyaf sylweddol y mae angen eu cysoni rhwng amrywiadau'r gwasanaethau y mae modd eu rheoli a'r amrywiadau ar y llinell waelod yw addasiadau statudol drwy'r Datganiad o'r Symudiadau mewn Cronfeydd Wrth Gefn (gweler y Datganiad Cyfrifon).

## PERFFORMIAD ARIANNOL (CRONFA'R CYNGOR) – CANLYNIADAU DROS DRO 2014/15

| Cyfadran | Cyllideb Flynyddol | Canlyniadau Dros Dro | Cyfanswm yr Amrywiad Canlyniad Dros Dro | Amrywiadau Dros Dro nad oes modd eu Rheoli | Amrywiadau Dros Dro y mae modd eu rheoli | Amrywiadau Dros Dro nad oes modd eu rheoli sy'n cael effaith ar y canlyniadau cyfan | Amrywiad i'r Canlyniadau Dros Dro sy'n cael effaith ar y Linell Waelod |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | **£'000** | **£'000** | **£'000** | **£'000** | **£'000** | **£'000** | **£'000** |
| **Dysgu Gydol Oes** | | | | | | | |
| Cyllideb wedi'i datganoli i'r Ysgolion | 43,546 | 43,546 | **0** | 4 | **-4** | 4 | **0** |
| Addysg Ganolog | 7,586 | 9,626 | **2,040** | 2,105 | **-65** | 125 | **60** |
| Diwylliant | 1,894 | 1,876 | **-18** | -121 | **103** | -121 | **-18** |
| **Cymunedau** | | | | | | | |
| Gofal Cymdeithasol | 29,036 | 28,357 | **-679** | -309 | **-370** | -390 | **-760** |
| Tai | 1,260 | 2,391 | **1,131** | 1,383 | **-252** | -212 | **-464** |
| **Datblygu Cynaliadwy** | | | | | | | |
| Datblygu Economaidd (gan gynnwys Arforol) | 1,836 | 2,579 | **743** | 734 | **9** | 35 | **44** |
| Hamdden | 2,381 | 2,283 | **-98** | -83 | **-15** | 47 | **32** |
| Priffyrdd a Thrafnidiaeth | 10,305 | 10,857 | **552** | 603 | **-51** | -13 | **-64** |
| Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd | 2,779 | 2,720 | **-59** | -8 | **-51** | -67 | **-118** |
| Eiddo | 452 | 1,929 | **1,477** | 1,459 | **18** | -112 | **-94** |
| Gwaith y codir amdano | 0 | 0 | **0** | 0 | **0** | 0 | **0** |
| Rheoli'r Gyfadran | 57 | 55 | **-2** | 0 | **-2** | 0 | **-2** |
| Gwastraff | 7,746 | 7,842 | **96** | 223 | **-127** | 84 | **-43** |
| **Dirprwy Brif Weithredwr** | | | | | | | |
| Corfforaethol – Gwasanaethau Eraill | 1,491 | 3,576 | **2,085** | 1,880 | **205** | 1,912 | **2,117** |
| Costau Corfforaethol a Democrataidd | 1,896 | 2,611 | **715** | 483 | **232** | 483 | **715** |
| Swyddfa'r Dirprwy Brif Weithredwr | 1,000 | 22 | **-978** | -954 | **-24** | -954 | **-978** |
| Cyllid – heb gynnwys Budd-daliadau a ganiatawyd | 747 | 1,107 | **360** | -373 | **733** | -367 | **366** |
| Cyllid – Budd-daliadau a ganiatawyd | 5,918 | 5,918 | **0** | 0 | **0** | 0 | **0** |
| Adnoddau Dynol | 242 | 184 | **-58** | 66 | **-124** | 65 | **-59** |
| TGCh | 0 | 0 | **0** | 404 | **-404** | 363 | **-41** |
| Cyfreithiol a Phwyllgorau | 109 | 137 | **28** | 51 | **-23** | 64 | **41** |
| Trawsnewid | 747 | 250 | **-497** | -344 | **-153** | -344 | **-497** |
| Archwilio | 13 | 0 | **-13** | -27 | **14** | -27 | **-13** |
| Cyllid Corfforaethol | 5,242 | 4,419 | **-823** | 0 | **-823** | 0 | **-823** |
| **Cyfanswm** | **126,283** | **132,285** | **6,002** | **7,176** | **-1,174** | **575** | **-599** |

**CYLLIDWYD GAN**

| | |
|---|---|
| Trethi Cenedlaethol Annomestig | 22,042 |
| Y Dreth Gyngor | 29,512 |
| Grant Cytundeb Canlyniadau | 726 |
| Grant Cymorth Refeniw | 74,390 |
| | **126,670** |

## PERFFORMIAD ARIANNOL (CRONFA'R CYNGOR) CH3 2014/15

| Cyfadran | Cyllideb wedi'i Phroffilio Ch3 £'000 | Gwirioneddol ac Ymrwymiadau Ch3 £'000 | Amrywiad Ch3 £'000 | Cyllideb Flynyddol £'000 | Canlyniad Disgwyliedig £'000 | Amrywiad i'r Canlyniad Disgwyliedig £'000 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Dysgu Gydol Oes** | | | | | | |
| Cyllideb wedi'i datganoli i'r Ysgolion | 32,015 | 32,015 | 0 | 43,614 | 43,614 | 0 |
| Addysg Ganolog | 4,284 | 4,128 | -156 | 7,402 | 7,287 | -115 |
| Diwylliant | 1,175 | 1,169 | -6 | 1,894 | 1,972 | 78 |
| | **37,474** | **37,312** | **-162** | **52,910** | **52,873** | **-37** |
| **Cymunedau** | | | | | | |
| Gofal Cymdeithasol | 21,148 | 20,382 | -766 | 29,419 | 28,716 | -703 |
| Tai | 1,477 | 1413 | -64 | 1,668 | 1,595 | -73 |
| | **22,625** | **21,795** | **-830** | **31,087** | **30,311** | **-776** |
| **Datblygu Cynaliadwy** | | | | | | |
| Datblygu Economaidd | 683 | 581 | -102 | 1,485 | 1,485 | 0 |
| Hamdden | 1,096 | 1,090 | -6 | 2,370 | 2,485 | 115 |
| Arforol | 115 | 206 | 91 | 395 | 435 | 40 |
| Y Fflyd | -37 | 19 | 56 | -55 | -55 | 0 |
| Priffyrdd | 6,227 | 6,051 | -176 | 9,920 | 10,020 | 100 |
| Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd | 1,787 | 1,925 | 138 | 2,738 | 2,899 | 161 |
| Eiddo | 1,033 | 995 | -38 | 452 | 490 | 38 |
| Gwaith y codir amdano | 211 | 100 | -111 | 0 | 0 | 0 |
| Rheoli'r Gyfadran | 43 | 45 | 2 | 57 | 57 | 0 |
| Gwastraff | 5,587 | 5,627 | 40 | 7,890 | 7,925 | 35 |
| | **16,745** | **16,639** | **-106** | **25,252** | **25,741** | **489** |
| **Dirprwy Brif Weithredwr** | 1114 | 1281 | 167 | 1,491 | 1,678 | 187 |
| Corfforaethol – Gwasanaethau Eraill | 686 | 603 | -83 | 1,896 | 1,813 | -83 |
| Costau Corfforaethol a Democrataidd | 734 | 742 | 8 | 1,000 | 1,034 | 34 |
| Swyddfa'r Dirprwy Brif Weithredwr | 2,011 | 2,699 | 688 | 863 | 1,580 | 717 |
| Cyllid – heb gynnwys Budd-daliadau a ganiatawyd | 7,683 | 5,989 | -1,694 | 5,918 | 5,980 | 62 |
| Cyllid – Budd-daliadau a ganiatawyd | 662 | 848 | 186 | 242 | 242 | 0 |
| Adnoddau Dynol | 1321 | 1096 | -225 | 0 | -338 | -338 |
| TGCh | 1112 | 1210 | 98 | 143 | 111 | -32 |
| Cyfreithiol a Phwyllgorau | 746 | 756 | 10 | 747 | 678 | -69 |
| Trawsnewid | 173 | 175 | 2 | 13 | 13 | 0 |
| Archwilio | 5,321 | 5,321 | 0 | 5,108 | 5,108 | 0 |
| Cyllid Corfforaethol | **21,563** | **20,720** | **-843** | **17,421** | **17,899** | **478** |
| | **98,407** | **96,466** | **-1,941** | **126,670** | **126,824** | **154** |
| **Cyfanswm** | | | | | | |
| **ARIENNIR GAN** | | | | 22,042 | | |
| Trethi Cenedlaethol Annomestig | | | | 29,512 | | |
| Y Dreth Gyngor | | | | 726 | | |
| Grant Cytundeb Canlyniadau | | | | 726 | | |
| Grant Cymorth Refeniw | | | | 74,390 | | |
| | | | | **126,670** | | |

This page is intentionally left blank

| CYNGOR SIR YNYS MÔN | |
|---|---|
| **ADRODDIAD I:** | **Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol** |
| **DYDDIAD:** | **26 Mai 2015** |
| **PWNC:** | **Presenoldeb mewn Cynhadledd o'r enw "Llwyddo drwy Gydweithio – Rhannu Atebolrwydd i'r Cyhoedd yng Nghymru"** |
| **AWDUR YR ADRODDIAD:**<br>**Ffôn:**<br>**E-bost:** | **Geraint Wyn Roberts (Swyddog Sgriwtini)**<br><br>**01248 752039**<br>**gwrce@ynysmon.gov.uk** |

**1.0 ARGYMHELLIAD**

1.1 Nodi'r wybodaeth sydd yn yr adroddiad.

**2.0 RHESWM.**

2.1 Yn ei gyfarfod diwethaf, cytunodd y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol y byddai adroddiad byr yn gael eu gyflwyno ar gynhadledd a fynychodd Cadeirydd y Pwyllgor a'r Swyddog Sgriwtini yn Llandrindod ar 27 Mawrth 2015 o'r enw "Llwyddo drwy Gydweithio – Rhannu Atebolrwydd i'r Cyhoedd yng Nghymru".

2.2 Trefnwyd y gynhadledd gan gynrychiolwyr Llywodraeth Leol (Cynghorau Caerffili, Caerdydd a Sir Fynwy), y Ganolfan ar gyfer Sgriwtini Cyhoeddus, Canolfan Fusnes Caerdydd a Llywodraeth Cymru. Pwrpas y digwyddiad oedd i amlygu'r canlynol:

- Y Papur Gwyn ar Ad-drefnu Llywodraeth Leol: Grym i Bobl Leol
- Y cysylltiad rhwng sgriwtini ac archwilio, arolygu a rheoleiddio allanol
- Sgriwtini ar y cyd.

2.3 Ceir crynodebau ar y pwyntiau bwled uchod fel a ganlyn:

**Y Papur Gwyn ar Ad-drefnu Llywodraeth Leol: Y Grym i Bobl Leol**

Yn y papur gwyn, nodir cynigion Llywodraeth Cymru ar gyfer ad-drefnu democratiaeth leol, swyddogaethau aelodau etholedig ac uwch swyddogion, a chydnabyddiaeth iddynt, gwelliannau corfforaethol, perfformiad gwasanaethau, sgriwtini, archwilio, arolygu a rheoleiddio. Mae'r papur gwyn yn rhoi sylw i nifer fawr o faterion (mae rhai ohonynt yn dechnegol) a daeth y cyfnod ymgynghori i ben ar 28 Ebrill 2015. Cafwyd diweddariad ar lafar ar y sefyllfa gyfredol yn y gynhadledd.

**Y cysylltiad rhwng sgriwtini ac archwilio, arolygu a rheoleiddio allanol**

Yn Ebrill 2014, comisiynodd Llywodraeth Cymru brosiect dan ei Gronfa Datblygu Sgriwtini i ddatblygu gwaith ymchwil a wnaed yn flaenorol ar sut y gallai sgriwtini mewnol mewn llywodraeth leol gael cysylltiad mwy effeithiol gyda chyrff archwilio arolygu a rheoleiddio allanol (AIR) yng Nghymru.  Arweiniwyd y prosiect gan Gyngor Dinas Caerdydd a chylchredwyd papur ar y mater i gynrychiolwyr yn y gynhadledd.  Yn y papur, nodwyd y pedwar prif faes a ganlyn ar gyfer trafodaeth:

1. Sgriwtini ac AIR gan adeiladu ar adroddiadau'r naill a'r llall.
2. Gwella cyfathrebu ac ymgysylltiad rhwng AIR a sgriwtini.
3. Cefnogi datblygiad cymwyseddau aelodau sgriwtini.
4. Cefnogi sgriwtini yn ei rôl o ran hunanasesiad mewn llywodraeth leol.

Byddai syniadau ymarferol yn codi o'r trafodaethau yn y gynhadledd yn cael eu casglu gan Gyngor Dinas Caerdydd er mwyn ffurfio pecyn cymorth a fyddai ar gael yn rhad ac am ddim i gynorthwyo Cynghorau Cymru i sefydlu cysylltiadau effeithiol.

**Sgriwtini ar y cyd**

Cafodd llawlyfr o'r enw "Cyd-graffu Fesul Cam" ei lansio yn y gynhadledd. Cynhyrchwyd y llawlyfr gan Ysgol Fusnes Caerdydd ar ran Cynghorau Caerffili, Blaenau Gwent a Sir Fynwy, a chafwyd grant o Gronfa Sgriwtini Llywodraeth Cymru. Dosbarthwyd nifer gyfyngedig o lawlyfrau (dau fesul Cyngor).  Yn y llawlyfr, cafwyd canllawiau o ran sgriwtini ar y cyd rhwng timau sgriwtini'r Cynghorau neu sgriwtini ar y cyd rhwng timau sgriwtini cynghorau a sefydliadau partner.

Cyflwynwyd tair enghraifft o sgriwtini ar y cyd a gydnabyddir fel arfer dda

Enghraifft 1: Llifogydd yng Ngwlad yr Haf
Sefydlodd Cyngor Dosbarth Gwlad yr Haf weithgor trawsbleidiol ac arno ddau aelod etholedig o chwe awdurdod (5 awdurdod dosbarth ac un sirol).  Gan gymryd arnynt statws gweithgor anffurfiol, roedd modd iddynt weithredu heb orfod rhyddhau rhaglenni 5 niwrnod ymlaen llaw (fel sy'n berthnasol yn Lloegr yn unig).  Cynhaliwyd Uwch Gynhadledd Llifogydd ar gyfer Gwlad yr Haf i gasglu ynghyd syniadau ar sut i wella'r sefyllfa yn y dyfodol.

Enghraifft 2: Trais yn y Cartref
Sefydlodd Rhondda Cynon Taf weithgor ac arno gymysgedd o aelodau a chynrychiolwyr o blith partneriaid.  Cynhaliodd y grŵp adolygiad o drais yn y cartref (yr

oedd ei gyfrifoldeb yn croestorri gyda'r Bwrdd Gwasanaeth Lleol) gan sefydlu blaenoriaethau yr oedd angen gweithredu arnynt.

Enghraifft 3: Rheoli Gwastraff
Daeth Cyngor Dinas Caerdydd â 5 Cyngor at ei gilydd i sgriwtineiddio partneriaethau yn y maes rheoli gwastraff. Cafodd gefnogaeth dîm prosiect yn cynnwys swyddogion amser llawn a dau aelod o bob Cyngor.  Yn ychwanegol at hyn, penodwyd ymgynghorwyr cyfreithiol, technegol ac ariannol allanol i ddarparu cyngor arbenigol. Arweiniodd hyn at greu Panel Sgriwtini ar y cyd o'r enw Prosiect Gwyrdd ym mis Rhagfyr 2009 a chafwyd adroddiad gan y Panel yn 2012.

**3.0 CASGLIAD**

3.1 Roedd hon yn gynhadledd llawn gwybodaeth a oedd yn ymwneud â nifer o feysydd. Bydd y Cadeirydd  yn bresennol yn y cyfarfod i ateb unrhyw gwestiynau a all godi mewn perthynas â'r gynhadledd.

| | |
|---|---|
| **Awdur:** | **Geraint Wyn Roberts** |
| **Teitl y Swydd:** | **Swyddog Sgriwtini** |
| **Dyddiad:** | **15 Mai 2015** |

This page is intentionally left blank

# RHAGLEN WAITH Y PWYLLGOR SGRIWTINI CORFFORAETHOL

Cadeirydd: Y Cynghorydd Meirion Jones
Is-Gadeirydd: Y Cynghorydd Gwilym Jones

Y tabl isod yw Rhaglen Waith y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol o fis Mai 2015 i fis Mai 2016. Adroddir ar y Rhaglen Waith i bob cyfarfod o'r Pwyllgor Sgriwtini i bwrpas adolygu ei chynnwys, ystyried eitemau newydd neu i ohirio/tynnu eitemau yn ôl.

Cyswllt: Geraint Wyn Roberts (Swyddog Sgriwtini)
Ffôn: 01248 752039
E-bost: gwrce@ynysmon.gov.uk

| Dyddiad y Cyfarfod | Eitem | Pwrpas | Lleoliad /Amser cychwyn |
|---|---|---|---|
| **Eitemau Sefydlog ar bob rhaglen Pwyllgor:**<br>• **Ymddiheuriadau**<br>• **Cofnodion**<br>• **Cyhoeddiadau gan y Cadeirydd neu'r is-Gadeirydd**<br>• **Rhaglen Waith** | | | |
| **6 Gorffennaf 2015** | Enwebiad i'r Panel Rhiant Corfforaethol. | Enwebu un aelod i'r Panel sy'n sicrhau bod gwasanethau i blant a phobol ifanc mewn gofal o safon uchel | Ystafell Bwyllgor 1 / 3yp |
| | Trefniadau Cyngor Lleol i Gefnogi Amddiffyn Plant- Swyddfa Archwilio Cymru | Monitro perfformiad | |
| | Adolygiad o'r Gwasanethau Llyfrgelloedd | Sgriwtini cyn penderfyniad | |
| | Adroddiad Perfformiad Blynyddol - Drafft (Cynllun Gwella) 2014-2015 | Sgriwtini cyn penderfyniad | |
| | Matrics Cyllideb Gyfalaf 2016-2017 | Monitro perfformiad | |
| | | | |
| **14 Medi 2015** | Adroddiad Perfformiad Blynyddol ( Cynllun Gwella ) 2014-2015 | Sgriwtini cyn penderfyniad | Ystafell Bwyllgor 1 / 2yp |
| | Cerdyn Sgorio Corfforaethol Ch1 2015/2016 | Monitro perfformiad | |
| | Adroddiad Monitro Refeniw Ch1 2015/2016 | Monitro perfformiad | |
| | Adroddiad Monitro Cyfalaf Ch1 2015/2016 | Monitro perfformiad | |
| | Cyllideb 2016-2017 – Cynllun Ymgynghori | Sgriwtini cyn penderfyniad | |
| | Moderneiddio Ysgolion – Ymgynghori Ffurfiol Ardal Rhosyr | Sgriwtini cyn penderfyniad | |
| | | | |
| **16 Tachwedd 2015** | Opsiynau Cychwynnol Cyllideb 2016-2017 | Sgriwtini cyn penderfyniad | Ystafell Bwyllgor 1 / 3 yp |
| | Cerdyn Sgorio Corfforaethol Ch2 2015/2016 | Monitro perfformiad | |
| | Adroddiad Monitro Refeniw Ch2 2015/2016 | Monitro perfformiad | |
| | Adroddiad Monitro Cyfalaf Ch2 2015/2016 | Monitro perfformiad | |
| | Absenoldeb Salwch (Diweddariad) | Monitro Perfformiad | |

| Dyddiad y Cyfarfod | Eitem | Pwrpas | Lleoliad /Amser cychwyn |
|---|---|---|---|
| **Eitemau Sefydlog ar bob rhaglen Pwyllgor:**<br>• **Ymddiheuriadau**<br>• **Cofnodion**<br>• **Cyhoeddiadau gan y Cadeirydd neu'r is-Gadeirydd**<br>• **Rhaglen Waith** | | | |
| | | | |
| **11 Ionawr 2016** | Cyllideb (Ddrafft) y Pwyllgor Gwaith 2016-2017 | Sgriwtini cyn penderfyniad | Ystafell Bwyllgor 1 /<br>10yb - 4yp ( trwy'r dydd) |
| | | | |
| **1 Chwefror 2016**<br>**(N.B. Dyddiad arall I'w drefnnu yn y man)** | Ymateb i ymgynghoriad cyhoeddus ar Gyllideb 2016-2017 y Pwyllgor Gwaith | Sgriwtini cyn penderfyniad | Ystafell Bwyllgor 1 / 2yp |
| | | | |
| **14 March 2016 2015** | Cerdyn Sgorio Corfforaethol Ch3 2015/2016 | Monitro perfformiad | Ystafell Bwyllgor 1 / 3yp |
| | Adroddiad Monitro Refeniw Ch3 2015/2016 | Monitro perfformiad | |
| | Adroddiad Monitro Cyfalaf Ch3 2015/2016 | Monitro perfformiad | |
| | | | |
| **11April 2016** | Eitemau i'w cadarnhau | | Ystafell Bwyllgor 1 / 2yp |
| | | | |

Tudalen 53

This page is intentionally left blank